# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Ymchwiliad Craffu – Ad-drefnu Ysgolion yng nghefn gwlad Cymru

Tachwedd 2008

Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org

Gellir cael copïau caled pellach o'r adroddiad hwn a chopïau fformat amgen oddi wrth:

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
Gwasanaeth y Pwyllgor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffon: 029 2089 8239
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: sustainability.comm@wales.gsi.gov.uk

**Cynnwys** **Tudalen**

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a Chefndir | 1 |
| Gosod y Cyd-destun | 3 |
| Rhesymau dros Gau | 4 |
| Y Broses Gau | 14 |
| Effeithiau Cau | 20 |
| Opsiynau Amgen yn hytrach na Chau | 26 |
| Y Ffordd Ymlaen | 29 |
| Atodiad 1 – Crynodeb o'r Argymhellion | 31 |
| Atodiad 2 – Mudiadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor | 33 |
| Atodiad 3 – Rhestr o Bapurau Pwyllgor a Ddarparwyd fel Sail i Dystiolaeth Lafar | 35 |
| Atodiad 4 – Rhestr o Ymatebwyr i Alw Arnynt am Dystiolaeth Ysgrifenedig | 37 |

## RHAGAIR Y CADEIRYDD

Fel Pwyllgor, ac o'n bywydau a'n profiadau ein hunain, roedd pob un ohonom yn ymwybodol o'r cryfder teimlad ac emosiwn ar ddechrau'r ymchwiliad hwn. Prin yw'r materion gwleidyddol sydd â'r grym i ysgogi dadl wirioneddol real ac angerddol ac sy'n taro tant i'r un graddau â'r ddadl hon am ddyfodol ysgolion cynradd bach, gwledig gan mwyaf. Rydym wedi gweld hyn, nid yn unig yn y cymunedau gwledig y mae'r ymchwiliad hwn a'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arnynt, ond ledled Cymru gyfan.

Gofynnwyd inni ymgymryd â'r ymchwiliad hwn yn sgil deiseb gan grŵp o rieni ym Mhowys. Nid wyf yn siŵr beth fyddant yn ei feddwl o'n casgliadau. Beth bynnag fo'u teimladau, gobeithiaf y byddant hwy ac eraill yn cydnabod bod yr ymchwiliad hwn, a'r adroddiad sy'n deillio ohono, yn dangos bod gan bobl ledled Cymru y grym erbyn hyn i lywio agenda'r Cynulliad Cenedlaethol a rhaglen waith ei Bwyllgorau.

Mae hwn yn fater sydd wedi cael llawer iawn o sylw yn y cyfryngau yn lleol a chenedlaethol, a bydd hynny'n parhau. Mae'r ymchwiliad wedi rhoi'r cyfle inni i ystyried y dystiolaeth a thrafod y materion gydag amryw o bartïon sydd â diddordeb yn y maes mewn ffordd fwy ystyriol a phwyllog.

Yr anhawster pennaf a oedd yn wynebu'r Pwyllgor oedd diffyg tystiolaeth gref, sy'n argyhoeddi, yn enwedig ynglŷn ag effaith ad-drefnu neu gau ysgolion yn y gorffennol ar wahanol gymunedau. Er inni gael cyfoeth o dystiolaeth anecdotaidd, nid yw'n ymddangos fod fawr ddim ymchwil wedi cael ei wneud yn y maes hwn a phrin yw'r adroddiadau neu'r adolygiadau sydd wedi'u cyhoeddi. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gobeithio y rhoddir sylw iddo drwy waith ac ymchwiliadau pellach.

Er ei bod yn iawn ac yn briodol i'r Llywodraeth ddefnyddio gwybodaeth, tystiolaeth a ffeithiau caled yn sail i'w pholisi, mae hefyd yn iawn inni ddibynnu ar egwyddor i arwain y polisïau a luniwn yn y maes cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor yn gadarn o'r farn mai prif bwrpas unrhyw ysgol yw darparu'r addysg orau bosibl i'r plant y mae'n eu gwasanaethu. Cyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol yw darparu addysg o safon fyd-eang i'r holl blant yn ei ardal. Mae unrhyw fudd ychwanegol a ddaw i'r gymuned yn fantais. Fodd bynnag, nid dyna brif bwrpas a phrif ffactor sbarduno polisi yn y maes hwn, ac ni all byth fod yn hynny. Anghenion y plant sy'n dod gyntaf.

Ar yr un pryd, mae diogelu ansawdd bywyd ei dinasyddion a hyrwyddo lles cymdeithas a'n holl gymunedau – heb ystyried daearyddiaeth, maint na chyfoeth – o reidrwydd yn rôl a chyfrifoldeb sylfaenol ar Lywodraeth. Rhaid cydnabod hynny wrth lunio polisi cyhoeddus.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar i'r ymchwiliad hwn. Gwnaeth y dystiolaeth a ddaeth i law oddi wrth nifer o ysgolion a chymunedau, a oedd yn amlwg wedi treulio cryn amser yn paratoi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith, argraff arbennig ar y Pwyllgor. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad ac roedd eu sylwadau yn rhan bwysig o'n trafodaethau.

Hefyd, hoffwn ddiolch i Alun Ffred Jones AC, Lorraine Barrett AC a Mike German AC am eu cyfraniad gwerthfawr i'n hymchwiliad ac, wrth gwrs, hoffem ddiolch i'r staff sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor. Hebddynt, ni fyddem wedi gallu cwblhau ein gwaith.



**Alun Davies AC**
**Cadeirydd, Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**

# 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## Tarddiad yr Ymchwiliad

1.1 Derbyniodd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol ddeiseb oddi wrth Gweithredu Ysgolion Cymunedol Powys, ar 20 Medi 2007, a ddywedai:

> Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal cymunedau Powys, y fwyaf gwledig o siroedd Cymru, ac i atal a gwrth-droi'r pwysau ar Gyngor Sir Powys i gau'r ysgolion sydd wrth galon y cymunedau hynny.

1.2 Gwahoddodd y Pwyllgor Deisebau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal ymchwiliad i'r materion a godwyd.

## Cylch Gorchwyl

1.3 Yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2008, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr, a ffocws iddo, i'r ddarpariaeth addysg yn y Gymru wledig ac i ad-drefnu ysgolion yng nghefn gwlad Cymru.

1.4 Canolbwyntiai'r ymchwiliad yn arbennig ar y materion a'r themâu canlynol:

- y ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion cynradd gwledig;
- a oes unrhyw faterion cymdeithasol ac addysgol ehangach yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion cynradd, megis yr effaith ar gymunedau, teuluoedd a phlant, a sut y caiff ystyriaeth ei rhoi i hyn fel rhan o'r broses benderfynu;
- enghreifftiau o ad-drefnu yng nghefn gwlad Cymru a mannau eraill er mwyn deall y profiadau a dysgu o unrhyw ddulliau gweithredu arloesol;
- polisi a chanllawiau presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac a ydynt yn delio'n ddigonol â'r materion ehangach a allai fod yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion cynradd gwledig; a
- rôl Estyn yn darparu adroddiadau ar ysgolion ac AALlau.

1.5 Nid pwrpas yr adroddiad hwn yn darparu sylwebaeth ar y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd mewn awdurdodau lleol unigol. Nid yw ychwaith yn ceisio trafod yr holl fframwaith polisi cenedlaethol y dylid gwneud penderfyniadau o'r fath oddi mewn iddo. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio bwrw golwg gyffredinol dros y profiad sydd ar gael yng Nghymru a gwneud argymhellion, sylwadau ac arsylwadau ar sail y dystiolaeth yr ydym wedi'i chael.

1.6 Yn ôl eu natur, mae ysgolion bach yn tueddu i fod yn ysgolion cynradd, ac er bod rhai o'r ystyriaethau a drafodir yn yr adroddiad hwn yn effeithio hefyd efallai ar ysgolion uwchradd, mae'r mwyafrif o'r dystiolaeth a ddaeth i'r law'r Pwyllgor wedi ymdrin ag addysg gynradd. Dyna oedd y ffocws i'r ymchwiliad ac i'r adroddiad hwn.

1.7 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r prif faterion a godwyd gan y dystiolaeth. Yn yr adran gyntaf, rydym yn archwilio'r rhesymau pam y gallai ysgolion bach wynebu bygythiad i'w cau ac yn trafod y dadleuon o'u plaid ac yn eu herbyn. Mae ail adran ein hadroddiad yn ymdrin â'r broses y mae rhaid ei dilyn pan fydd bwriad i gau. Mae'n trafod rôl yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â chau a barn pobl sydd wedi mynd drwy'r broses. Cawsom lawer iawn o dystiolaeth gan rieni a disgyblion am eu barn hwy ynglŷn ag effeithiau cau ysgolion bach ac rydym yn trafod y dystiolaeth honno yn rhan tri o'r adroddiad. Yn olaf, rydym yn ystyried opsiynau amgen yn hytrach na chau ysgolion, yn edrych ar enghreifftiau presennol o ymarfer da ac yn trafod ffyrdd posibl ymlaen i'r broses.

## 2. GOSOD Y CYD-DESTUN

2.1 Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, mae 35 o ysgolion gwledig bach wedi bod yn destun cynigion ad-drefnu. Cymeradwywyd 31 o'r cynigion, 12 ohonynt ar lefel leol a 19 gan Weinidogion Cymru. Byddwn yn trafod y rhesymau dros gau a'r broses benderfynu yn y penodau dilynol.

2.2 Mae'r cau ysgolion hyn wedi digwydd yn erbyn cefndir lle mae nifer y lleoedd ysgol dros ben yn cynyddu a'r gost o gynnal a chadw adeiladau ysgolion yn cynyddu.

2.3 Ar hyn o bryd mae bron i 51,000 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd yng Nghymru – 18% o'r cyfanswm sydd ar gael ac, er gwaethaf ymdrechion gan rai awdurdodau lleol i gael gwared â lleoedd, mae lefelau'r lleoedd dros ben yn dal i godi[1].

2.4 Rhwng mis Ionawr 2000 a mis Ionawr 2006 cafwyd gostyngiad o fwy na 23,000 yn nifer y disgyblion mewn ysgolion meithrin a chynradd yng Nghymru. Drwyddi draw, rhagwelir y bydd cyfanswm y disgyblion yn disgyn o oddeutu 470,000 yn 2005/06 i oddeutu 433,000 erbyn 2013/14, gostyngiad o oddeutu 8% dros 8 mlynedd. Er bod y cyfraddau genedigaethau wedi cynyddu'n ddiweddar, mae hyn yn amrywio rhwng ardaloedd, gydag ardaloedd gwledig yn aml yn gweld cyfraddau is. Os na chymerir camau i ostwng y nifer o leoedd dros ben, rhagamcanir y gallai fod dros 100,000 o leoedd ysgol gwag erbyn 2014 – mwy nag 20% o'r cyfanswm.

2.5 Mewn rhannau o gefn gwlad Cymru, mae llawer o'r adeiladau ysgolion yn dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif. Maent yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal ac nid oes gan lawer ohonynt rai o'r cyfleusterau sylfaenol, fel neuaddau ysgol a chyfleusterau ciniawa. Byddai angen ailwampio mawr ar lawer o adeiladau ysgolion gwledig er mwyn iddynt gyflwyno'r cwricwlwm modern ac amcangyfrifir y byddai angen buddsoddiad o £2.2bn i wneud pob ysgol yn addas i'r diben.

2.6 Yn y cyfnod 2002-03 i 2008-09, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol, cyfanswm o £24.8 miliwn, yn benodol ar gyfer ysgolion bach a gwledig. Diben yr arian hwn yw darparu cyfleusterau cymunedol a denu pobl i gysylltu'n fwy effeithiol ag ysgolion, darparu cymorth i benaethiaid sy'n addysgu a hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion bach.

2.7 Yng Nghymru, mae gan tua thraean yr ysgolion cynradd lai na 90 o ddisgyblion, ac mae gan 15% lai na 50 o ddisgyblion, er nad yw'r rhain i gyd mewn ardaloedd gwledig.

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, 9 Gorffennaf 2008, RDC(3)-13-08 (td1)

## 3. RHESYMAU DROS GAU

3.1 Nododd y Pwyllgor nifer o ffactorau a fydd yn sbarduno newid o ran y ddarpariaeth ysgolion bach yn y dyfodol:

- cyrhaeddiad addysgol;
- lleoedd dros ben;
- cyflwr adeiladau ysgolion;
- cyflwyno'r cwricwlwm;
- maint ysgolion;
- canlyniadau ysgolion bach o ran adnoddau;

### Lleoedd dros ben

3.2 Lleoedd dros ben yw'r rheswm a roddir amlaf dros ad-drefnu ysgolion. Mae lleoedd ysgol dros ben yn broblem sy'n cynyddu, nid yn unig yng Nghymru ond yng ngweddill y DU hefyd. Fel y dengys y ffigyrau uchod, disgwylir i'r mater hwn ddod yn fwy o broblem dros y blynyddoedd i ddod, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae llawer o ysgolion bach wedi'u lleoli.

3.3 Mae polisi presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ad-drefnu ysgolion wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr 23/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion[2], er bod adolygiad o'r ddogfen hon yn destun ymgynghori ar hyn o bryd[3].

3.4 Mae'r canllawiau'n cydnabod yr angen i gadw rhywfaint o gynhwysedd sbâr i ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd ond mae'n pwysleisio:

> Mae'n bwysig bod arian ar gyfer addysg yn cael ei ddefnyddio'n gost-effeithiol. ......Pan fo gormod o leoedd dros ben, dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu darpariaeth a, lle bo'n ymarferol, gyflwyno cynigion i'w dileu, yn enwedig os oes gan ysgolion lefelau sylweddol o leoedd dros ben.

3.5 Yn eu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd Gweithredu Ysgolion Cymunedol Powys eu bod yn credu nad oes canllawiau digonol i awdurdodau lleol ar sut y dylent ddelio â lleoedd dros ben. Dywedasant hefyd nad oedd y nifer o leoedd dros ben, fel y'i mesurir gan fformiwla Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn faen prawf defnyddiol, ond dyma'r fformiwla y mae disgwyl i'r awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth gyfrif y lleoedd gwag yn eu hysgolion.

3.6 Tynnwyd sylw at y pwynt hwn hefyd gan yr Athro David Reynolds, a awgrymodd fod angen gwneud ymchwil pellach i gost lle dros ben a sut y caiff y gost honno ei chyfrifo.

---

[2] Cylchlythyr 23/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*, Gorffennaf 2002

[3] Ymgynghoriad ar y Cylchlythyr: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion, Dogfen Ymgynghori Rhif: 060/2008, Hydref 2008

3.7 Honnai CLlLC fod yr awdurdodau lleol yn teimlo pwysau sylweddol o du Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru i ymdrin â lleoedd ysgol dros ben. Honnai mai'r pwysau tybiedig hwn sydd yn aml yn peri i awdurdodau lleol ddatblygu polisi cau ysgolion.

3.8 Nododd Estyn, yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, fod awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig wedi bod yn araf i fynd i'r afael â mater lleoedd dros ben mewn ysgolion a lleoedd heb eu llenwi. Gwnaed y sefyllfa hon yn waeth gan y ffaith eu bod hefyd yn cynnal nifer cymharol fawr o ysgolion bach a oedd yn ddrud iawn i'w rhedeg a'u cynnal.

3.9 Anghytunai'r Gweinidog â haeriadau rhai tystion fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno ar ddull unffurf o ddelio â lleoedd dros ben. Dadleuai fod gan y tri chorff eu rôl neilltuol, unigol, eu hunain yn y broses. Rhoddodd y Prif Arolygydd sicrwydd hefyd i'r Pwyllgor ynglŷn ag annibyniaeth Estyn yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y sicrwydd hwn.

3.10 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod lleoedd gwag yn amlwg yn gost ychwanegol ar awdurdodau lleol ac y bydd hyn yn arwain yn anochel at gostau ychwanegol a dianghenraid i dalwyr y dreth gyngor. Gallai arwain hefyd at ddargyfeirio cyllid ac at ddefnydd aneconomaidd o adnoddau.

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru**

- **yn darparu canllawiau cliriach i'r awdurdodau lleol ar sut i ddiffinio ac ymdrin â lleoedd dros ben;**
- **yn comisiynu ymchwil pellach i gost wirioneddol lle dros ben.**

**Argymhelliad 2: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn unrhyw ganllawiau newydd ar leoedd dros ben, yn datgan yn glir mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw delio â materion defnyddio adnoddau a lleoedd dros ben o fewn ei gyllideb drwyddi draw a'i bolisi addysg.**

**Dylid ei gwneud yn glir mai'r awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ac na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwysau ar awdurdodau unigol.**

**Cyflwr adeiladau ysgolion**

3.11 Mae llawer o ysgolion gwledig bach wedi bodoli ers blynyddoedd lawer ac felly hefyd eu hadeiladau. Er bod tu allan llawer o'r adeiladau yn ychwanegu at gymeriad cymuned fach, efallai, mae oed adeiladau llawer o ysgolion bach yn golygu y gallant fod yn ddrud i'w cynnal a'u cadw a'u gwella i'r safonau a ddisgwylir yn yr 21$^{ain}$ ganrif.

3.12 Yn ôl Estyn,

> "mae gormod o ddisgyblion yn cael addysg mewn adeiladau o ansawdd wael a oedd yn addas i'w diben ar ddiwedd yr oes Fictoraidd a dechrau'r ganrif ddiwethaf, ond nid ydynt yn addas ar gyfer yr addysg yr ydym am ei darparu i'n plant yn yr unfed ganrif ar hugain".

3.13 Honnai Estyn hefyd fod gwell adeiladau yn cyfrannu, ym mhob ysgol, at wella ystod o ganlyniadau, yn cynnwys cyflawni, ymddygiad, presenoldeb ac addysgu. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hyn yn arbennig o wir i blant sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig.

3.14 Mynegodd CLlLC bryder ynglŷn â chyflwr rhai adeiladau ysgolion, a bod y broblem yn arbennig o amlwg mewn ardaloedd gwledig. Yng Ngwynedd, lle mae dros hanner yr adeiladau ysgolion yn gan mlwydd oed o leiaf, roedd yr awdurdod lleol hefyd yn cwestiynu i ba raddau yr oedd lleoliad, natur, maint a chyfleusterau'r ysgolion – er eu bod yn addas ar gyfer anghenion cymunedau ganrif yn ôl – yn dal i ddarparu'r gwasanaeth gorau.

3.15 Cododd CLlLC bryder hefyd ynglŷn â defnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r term 'addas i'r diben'. Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn glir ei bod am gael adeiladau ysgolion sy'n addas i'w diben, nid oedd canllawiau penodol wedi cael eu darparu i ddiffinio sut ysgol fyddai ysgol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain neu ysgol ar gyfer y dyfodol.

3.16 Yn ôl yr Athro Reynolds, mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau i wella adnoddau ac adeiladwaith adeiladau ysgolion yn gorfforol er mwyn gwneud ysgolion yn well ac yn addas i'w diben. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau cyfalaf ar gael i wneud hynny ym mhob ysgol. Efallai fod gan awdurdod lleol gyllideb gyfalaf ddigonol i allu gweithio ar un ysgol o 100 o ddisgyblion a'i gwneud yn addas i'w diben, ond ni allai weithio ar dair neu bedair o ysgolion o 20 neu 30 o ddisgyblion i'w gwneud hwy'n addas i'w diben. Felly, efallai y bernir mai cau ac uno ysgolion fydd yr unig ffordd o gyrraedd y targedau a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

3.17 Nid oedd yr holl dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor yn cefnogi'r farn mai adeiladau ysgol newydd yw'r mwyaf priodol i ateb gofynion addysg fodern.

3.18 Roedd rhanddeiliaid yn Ysgol Rhiwlas yn gweld adeilad eu hysgol nhw fel ased pwysig:

> "Mae'r ysgol o adeiladwaith carreg Cymreig clasurol, hynod o solet ac wedi cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae wedi gwrthsefyll yr hinsawdd am dipyn mwy na chanrif ac mae ei hadeiladwaith carreg yn cyfrannu hefyd at effeithlonrwydd ynni, gan fod carreg yn insiwleiddiwr heb ei fath. Byddai modd gwneud yr adeiladau'n fwy effeithlon o ran ynni yn hawdd drwy ragor o insiwleiddio."

3.19 Honnai Mervyn Benford o Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Bach fod ansawdd addysgu yn annibynnol ar adeiladau. Mae'r Pwyllgor yn gwrthod y farn hon.

3.20 Er na chawsom unrhyw dystiolaeth fod ysgolion bach yn fwy tebygol o fod ag adeiladau gwaeth na rhai mawr, mae’r Pwyllgor yn credu bod cyflwr adeiladau ysgolion yn elfen hanfodol wrth gyflwyno addysg o ansawdd uchel. Mae bod adnoddau rhagorol ar gael ynghyd ag amgylchedd addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn hanfodol i bob plentyn – yn enwedig y rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig.

3.21 Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod adnoddau ychwanegol sylweddol wedi cael eu buddsoddi mewn adeiladau ysgolion ar draws Cymru gyfan dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, rhaid dal i gynnal lefel uchel o fuddsoddi. Cred y Pwyllgor fod parhau i fuddsoddi mewn adnoddau ac adeiladau yn hanfodol os ydym ni, fel gwlad, i fodloni disgwyliadau ac uchelgais rhieni a chymunedau a hefyd i ddiwallu anghenion plant yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gweledigaeth glir i ysgolion cynradd Cymru:**

- **I gynnwys diffiniad o’r hyn y mae “addas i’r diben” yn ei olygu;**
- **I fireinio a disgrifio “Safon Ysgolion i Gymru”**

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal archwiliad cynhwysfawr o’r ystâd ysgolion i sefydlu faint o safleoedd ysgolion a fyddai’n cydymffurfio â’r safon a faint o fuddsoddiad a fydd yn ofynnol er mwyn gwella holl ysgolion Cymru fel eu bod yn cyrraedd y safon hon.**

**Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu strategaeth glir i sicrhau y bydd pob ysgol yng Nghymru yn cyrraedd y safon hon o fewn amserlen gyhoeddedig, y cytunwyd arni.**

**Cyflwyno’r Cwricwlwm**

3.22 Mae gallu ysgolion bach, yn enwedig y rhai lleiaf oll, i gyflwyno’r cwricwlwm yn ofyniad allweddol a sylfaenol. Os nad yw ysgol yn gallu cyflwyno’r cwricwlwm bydd pob agwedd arall o’i pherfformiad yn cael ei thanseilio a’i pheryglu.

3.23 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol am y pwysau a wynebir gan athrawon a phenaethiaid mewn ysgolion bach iawn.

3.24 Honnai Cymdeithas yr Athrawon a’r Darlithwyr (ATL) Cymru fod athrawon mewn ysgolion bach yn gallu wynebu mwy o bwysau nag mewn ysgolion mwy oherwydd y llu o arbenigeddau. Dadleuai hefyd fod meysydd arweinyddiaeth, rheoli, datblygu staff a chynllunio’r cwricwlwm yn dioddef yn aml mewn ysgolion bach, yn enwedig lle mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol. Cefnogai Estyn y farn fod ysgolion bach, yn gyffredinol, yn wynebu mwy o bwysau yn y meysydd a amlygwyd uchod.

3.25 Awgrymodd Cyngor Sir Gwynedd fod athrawon yn aml yn amharod i ymgeisio am swydd pennaeth mewn ysgolion bach oherwydd pwysau ymrwymiad addysgu ynghyd â rôl reoli. Cododd bryder hefyd nad oedd digon o ymgeiswyr o ysgolion gwledig bach yn ennill lle ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth oherwydd fod y broses yn rhoi pwyslais sylweddol ar brofiad rheoli ffurfiol.

3.26 Credai Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru hefyd ei bod yn anodd recriwtio ymgeiswyr addas i swyddi gwag penaethiaid mewn llawer o ardaloedd a dadleuai fod ymgeiswyr posibl yn llai tebygol o ymgeisio am swydd mewn ysgol sydd â dyfodol ansicr. Awgrymodd fod ansicrwydd sylweddol ynglŷn ag ad-drefnu, gyda newidiadau polisi mynych yn sgil protestiadau, hefyd yn effeithio ar forâl staff.

3.27 Yn ôl Estyn, mae cyfran gymharol uchel o'r ysgolion cynradd sy'n peri pryder yn ysgolion bach. Ymysg yr anawsterau cyffredin a geir yn yr ysgolion hyn mae:

- arweinyddiaeth wan
- ansefydlogrwydd a chyfnewidioldeb staffio
- anhawster i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol a'r gofynion cyffredin hyd at safon ddigonol.

3.28 Ailadroddodd Estyn hefyd bryderon ynglŷn â'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth ac awgrymodd y byddai rhaid ystyried newid radical yn strwythur ysgolion yng Nghymru a dull amgen o arwain ysgolion yn y dyfodol agos.

3.29 Rhestrodd llawer o ymatebwyr yr anawsterau y bydd ysgolion bach yn eu hwynebu o ran arweinyddiaeth a chyflwyno'r cwricwlwm yn ogystal â materion eraill megis gweithgareddau allgyrsiol a rhyngweithio cymdeithasol y plant. Fodd bynnag, ar yr un pryd ag yr oeddent yn rhestru'r anawsterau hyn, ni lwyddodd ymatebwyr a thystion i brofi eu bod yn ddim byd mwy na sialensiau y gallai staff galluog, cryf eu cymhelliad, eu goresgyn. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod y materion hyn ynddynt eu hunain yn rhesymau i resymoli neu gau ysgolion bach.

3.30 Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod dilysrwydd y pryderon hyn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi nad oedd fawr o ddadlau nac anghytuno bod ysgolion bach yn wynebu pwysau ychwanegol sylweddol. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod ysgolion, eu staff a'u llywodraethwyr, yn gallu goresgyn y sialensiau hyn.

3.312 Mae'r Pwyllgor yn credu bod hwn yn fater y mae angen i awdurdodau lleol ei ystyried a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod pob ysgol fach yn cael cymorth sydd wedi cael ei deilwrio i'w hanghenion.

## Maint ysgolion

> *O ran maint, nid ydym yn credu bod unrhyw ffigur lle gallwch dynnu'r llinell a dweud, 'mae hon yn ysgol hyfyw, ond nid yw hon yn y dyffryn nesaf yn ysgol hyfyw.*

Gweithredu Ysgolion Cymunedol Powys, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, 4 Mehefin 2008

3.32 Mae llawer iawn o drafod ynglŷn â'r hyn yw ysgol fach a pha effaith a gaiff y nifer o ddisgyblion ar effeithiolrwydd y profiad addysgol a gânt. Mae'r argraff o'r hyn sy'n ysgol fach yn gallu dibynnu hefyd ar y lleoliad. Er enghraifft, tra na fyddai ysgol o 100 o ddisgyblion yn cael ei hystyried yn fach yng Nghymru, efallai, yn Lloegr, byddai'r un ysgol, mewn llawer o ardaloedd, yn cael ei gweld fel ysgol fach.

3.33 Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad ei diffiniad ei hun o'r hyn yw ysgol fach. Bernir mai mater i'r awdurdodau addysg unigol benderfynu arno yw hynny. Fodd bynnag, yn 2001, ymgymerodd Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol adolygiad o'r cyflenwad o leoedd ysgol. Wrth wneud hynny, mabwysiadodd farn y Comisiwn Archwilio sy'n ystyried bod ysgol yn un fach os oes llai na 90 o ddisgyblion ar gofrestr ysgol gynradd, llai na 600 o ddisgyblion ar gofrestr ysgol uwchradd 11-16 a llai na 700 o ddisgyblion ar gofrestr ysgol uwchradd sydd â chweched dosbarth. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y diffiniad hwn yn amherffaith a'i fod a wnelo â chostau cynyddol cynnal yr ysgol yn hytrach nag â'i llwyddiannau addysgol.

3.34 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd yr Athro Reynolds fod ei ymchwil ef yn dangos ei bod yn fwy priodol, yng Nghymru, meddwl am ad-drefnu ysgolion yn nhermau ad-drefnu ysgolion bach iawn iawn ac ysgolion bach iawn yn ysgolion bach o oddeutu 100 o ddisgyblion. Aeth ymlaen i ddweud:

> "Mae angen synnwyr cymesuredd yn y ddadl hon. Nid ydym yn sôn am greu ysgolion mawr—rydym yn creu ysgolion sy'n fwy, ond rydym yn sôn am ysgolion sy'n dal yn fach iawn, o gymunedau sy'n dal yn fach iawn, yn ôl pob safon ryngwladol a safonau Lloegr. Ni chredaf fod hynny wedi cael ei ddeall yn iawn."

3.35 Amlygodd adroddiad Estyn - "Ysgolion cynradd bach yng Nghymru[4]" gred Estyn fod angen diffiniad clir o'r hyn yw ysgol fach yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yna alw am sicrwydd ymysg llawer o addysgwyr, darparwyr ac eraill.

3.36 Yn ôl Cyngor Gwynedd, yr oedd dryswch o ran safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â maint delfrydol ysgol. Dadleuodd fod y Comisiwn Archwilio yn awgrymu o leiaf 90 o ddisgyblion; tro bo grantiau a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru megis RHAGORI (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru) yn awgrymu isafswm o 50 o ddisgyblion.

[4] Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru, Estyn, Chwefror 2006

3.37 Awgrymodd ATL Cymru hefyd fod angen diffiniad cyffredin, clir, y cytunwyd arno'n genedlaethol, o'r hyn yw ysgol fach.

3.38 Yn ystod y sesiynau i gymryd tystiolaeth lafar, cafwyd cryn drafod hefyd ar ba un a fyddai diffiniad yn help i lunio polisi neu i gyflwyno addysg.

3.39 Dadleuodd yr Athro Reynolds nad oedd digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i gyfiawnhau rhoi ffigur llinell sylfaen. Aeth ymlaen i awgrymu y dylai'r ysgolion bach iawn gael eu had-drefnu i faint o oddeutu 60 i 80 o ddisgyblion.

3.40 Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Athro Reynolds fod angen synnwyr cymesuredd wrth ystyried y mater hwn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cefnogi ei farn y:

> byddai ffigur o oddeutu 60 i 80 o ddisgyblion, 100 efallai - hynny yw, ysgolion o bedwar neu bum athro - yn gyfaddawd derbyniol rhwng manteision maint a manteision bod yn fach heb fod yn fach ofnadwy.

3.41 Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwyllo bod gofyn diffinio mewn termau absoliwt yr hyn yw ysgol fach o ran y nifer o ddisgyblion sy'n gofrestredig ar unrhyw adeg. Cred y Pwyllgor, o safbwynt penderfyniadau ynglŷn â chau, y dylai awdurdodau lleol ystyried maint ysgolion ar sail pob achos yn unigol, a hynny mewn perthynas â'r gymuned leol a'r cyd-destun lleol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu, mewn achos lle mae ysgol fach yn aros ar agor, y bydd gofyn cael cymorth ychwanegol mewn ysgolion lle mae gan y pennaeth ddyletswyddau addysgu sylweddol.

**Argymhelliad 6: Nad oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiffinio ysgol fach yn ôl y nifer o ddisgyblion sy'n gofrestredig ar unrhyw adeg - ond ei bod yn diffinio ysgol fach yn ôl y staff a baich addysgu'r Pennaeth er mwyn darparu cymorth a'i dargedu at yr ysgolion hynny lle mae'r mwyaf o angen cymorth o'r fath.**

## Canlyniadau Ysgolion Bach o ran Adnoddau

> *Fel is-bwyllgor, mae angen ichi gofio'r ardaloedd o Gymru ar wahân i'r pentrefi bach a'r ysgolion mwy nad ydynt efallai yn cael yr arian y dylent ei gael, gan ei fod yn cael ei wario'n anghymesur ar ysgolion bach iawn."*

Yr Athro David Reynolds, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, 11 Mehefin 2008

3.42 Yn anochel, dim ond hyn a hyn o adnoddau sydd ar gael i addysg yng Nghymru ac mae llawer o alwadau ar yr awdurdodau addysg lleol i flaenoriaethu eu gwariant. Bydd hyn yn arwain at wahanol drafodaethau i awdurdodau lleol. Mae'n bwysig fod awdurdodau lleol yn cael y drafodaeth hon gyda'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli a'u gwasanaethu.

3.43 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y swm anghymesur o arian sy'n cael ei wario ar ysgolion gwledig, llai yng Nghymru, er anfantais i ddisgyblion mewn ysgolion mwy. Yn ôl ASCL Cymru, y benbleth i awdurdodau addysg lleol oedd bod yr arian yn gyfyngedig ac, wrth i rieni a grwpiau cymunedol

bwyso am osgoi cau unrhyw ysgol, y canlyniad oedd bod llai o arian ar gael i sectorau eraill iddynt ddiwallu anghenion addysgol eu myfyrwyr hwy. Tynnodd sylw hefyd at ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan Ymgynghorydd Ariannol ASCL, ar ran 40 AALl yn Lloegr[5], sy'n dangos bod ysgolion bach ac ysgolion anghysbell yn fwy costus yn eu hanfod.

3.44 Credai rhieni a llywodraethwyr, er y gellid dangos bod ysgolion llai yn costio mwy fesul plentyn o'u cymharu ag ysgolion mwy, eu bod yn cynnig gwerth da i'r awdurdod lleol pan fyddai'r costio'n edrych ar bersbectif ehangach yr ysgol yn y gymuned.

3.45 Credai Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolion Bach fod mesur yn ôl cost uned yn ffordd annheg o fesur, oherwydd dylai ffactorau eraill gael eu hystyried. Er enghraifft, yn aml, yr ysgol oedd yr unig fantais yr oedd talwyr gwledig y dreth gyngor yn ei chael am eu harian. Awgrymodd hefyd fod ysgolion bach yn aml yn arbed arian drwy ostwng lefelau methiant addysgol yn ddiweddarach a rhoi llwyddiant mwy parhaol, er nad oedd yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r honiad hwn.

3.46 Cyfeiriodd ATL Cymru at ymchwil gan yr Athro Reynolds, a awgrymai y gallai ad-drefnu ysgolion gwledig yng Nghymru helpu i'w gwneud yn bosibl dosbarthu arian yn decach i bob ysgol er mwyn gwneud gwelliannau sylweddol, oherwydd roedd

> ysgolion mwy yn aml yn darparu arbedion maint a màs critigol o adnoddau a olygai bod modd gwneud gwariant untro ar raddfa na fyddai'n bosibl mewn sefydliad llai.[6]

3.47 Awgrymodd yr Athro Reynolds y gallai neilltuo unrhyw arbedion a ddeilliai o ad-drefnu ysgolion yng nghyllideb addysg yr awdurdod lleol, fel a oedd wedi digwydd yn Sir Benfro, helpu i ddangos i'r rhai sy'n gwrthwynebu cau ysgol nad lleihau'r gwariant ar addysg yw diben y polisi ond newid ffocws y gwariant hwnnw.

3.48 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, tenau eu poblogaeth, gryn lawer yn fwy costus na darparu'r un gwasanaethau mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor fod gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol ddyletswydd a chyfrifoldeb i sicrhau bod pob person a phob cymuned yn gallu manteisio ar wasanaethau o'r ansawdd uchaf bosibl, heb ystyried daearyddiaeth na chyfoeth.

3.49 Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod rhaid dal y ddysgl yn wastad rhwng hyn a'r angen i sicrhau bod plant yn cael eu trin yn deg. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y perygl real iawn, os oes adnodd anghymesur o fawr yn cael ei ddefnyddio i gynnal rhai ysgolion bach iawn, na fydd rhai ysgolion a disgyblion yn cael yr arian y dylent hwy ei gael, efallai, am ei fod wedi cael ei wario'n

---

[5] http://www.assemblywales.org/rdc_3__rrswa2_ascl.pdf
[6] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-rd-home/inquiries-3/rdc_3_-inq_rural_schools_/rdc_3_-rural_schools-responses/rrswa3.htm

anghymesur ar ysgolion bach iawn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn mai penderfyniad gwleidyddol yw hwn a ddylai gael ei wneud gan yr awdurdodau lleol ar sail dymuniadau'r etholwyr lleol.

**Cyrhaeddiad addysgol**

3.50 Holl ddiben y gyfundrefn addysg yng Nghymru yw rhoi i'n pobl ifanc yr arfau y mae eu hangen arnynt i wireddu eu potensial gydol eu hoes. Diben allweddol a sylfaenol unrhyw ysgol, o reidrwydd, beth bynnag fo'i maint neu ei lleoliad, yw galluogi pob plentyn i gyflawni ei gyrhaeddiad addysgol gorau.

3.51 Gydol yr ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor farn groes i'w gilydd wrth ystyried a yw cyraeddiadau addysgol mewn ysgolion bach a gwledig yn well, yn waeth ynteu'r un fath ag mewn ysgolion mwy. Ychydig iawn o'r dystiolaeth a gyflwynwyd a oedd yn gyson neu'n glir ac roedd llawer o'r dystiolaeth yn gwrth-ddweud ei gilydd.

3.52 Adroddodd Estyn "nad oes cyswllt clir rhwng maint dosbarthiadau a chyraeddiadau disgyblion yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd; mae tystiolaeth amwys iawn ar y pwynt hwnnw, ac yn sicr nid oes cysylltiad clir". Dadleuai hefyd y gall fod yn llawer haws dysgu 25 i 30 o ddisgyblion sy'n debyg o ran oed na dysgu grŵp o 15 i 20 o ddisgyblion cymysg eu hoedran, gan ei bod yn eithriadol o anodd diwallu anghenion dysgu ystod oedran eang iawn.

3.53 Dadleuai'r Athro Bramley mai'r un ffactor mwyaf sy'n achosi cyraeddiadau isel yw amddifadedd cymdeithasol, yn cynnwys tlodi, a bod hyn yn fwy cyffredin a dwys mewn rhai ardaloedd trefol a'r Cymoedd. Dadleuai ymhellach y dylai'r flaenoriaeth o ran adnoddau gael ei symud i ysgolion yn yr hyn sy'n cael eu hystyried yn gymunedau 'difreintiedig' er mwyn codi cyraeddiadau addysgol y disgyblion yno.

3.54 Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd ATL Cymru fod torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyraeddiadau addysgol isel yn gymaint o her i ysgolion gwledig ag ydoedd i'w cymheiriaid trefol. Honnai, tra oedd tlodi trefol yn weladwy iawn a bod digon o gofnodion amdano, mai anaml y câi allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ei gipio mewn data ystadegol swyddogol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn deall y ddadl hon gan ei bod yn rhan fawr o adroddiad diweddar y Pwyllgor ar amddifadedd yng nghefn gwlad Cymru.

3.55 Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, honnodd rhiant lywodraethwr ysgol fach fod plant o gefndiroedd difreintiedig a thlawd yn gwneud cynnydd mewn gwirionedd yn yr ysgolion lleiaf gan eu bod yn cael gofal a sylw unigol.

3.56 Rhoddodd tystion eraill dystiolaeth fod ysgol lai yn rhoi addysg lawnach i blant. Anecdotaidd oedd llawer o'r dystiolaeth hon ac efallai fod peth ohoni wedi'i seilio ar olwg mwy rhamantus o oes a fu yn hytrach nag ar ffeithiau a thystiolaeth galed.

3.57 Yn eu cyflwyniadau ysgrifenedig, dadleuodd rhieni, athrawon a llywodraethwyr ysgolion bach fod disgyblion mewn ysgolion bach, oherwydd maint y dosbarthiadau, yn cael mwy o sylw a chymorth nag mewn ysgolion mwy. Honasant hefyd fod plant mewn dosbarthiadau oedran cymysg yn mynd ymlaen i berfformio'n well ar lefel Safon Uwch a'r tu hwnt na phlant mewn ysgolion mwy a'u bod yn elwa o sgiliau cymdeithasgarwch a dysgu drwy ryngweithio ag eraill.

3.58 Dadleuai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod y siroedd hynny sydd, ar y cyfan, yn cael y canlyniadau academaidd gorau yn tueddu i fod yn siroedd sydd â nifer sylweddol o ysgolion gwledig. Felly,

> "mae achos ar yr olwg gyntaf i honni bod ysgolion pentref yn llwyddiannus iawn yn addysgol".

3.59 Roedd y deisebwyr o'r farn:

> "Yng Nghymru, mae'r canlyniadau gorau ar lefel Safon Uwch a'r tu hwnt yn tueddu i ddod o'r ardaloedd hynny sydd â'r gyfran uchaf o ysgolion bach."

3.60 Nid yw'r Pwyllgor yn derbyn y dystiolaeth hon. Nid oes fawr o dystiolaeth ymchwil i gadarnhau'r farn hon a, lle mae tystiolaeth o'r fath yn bodoli, mae'n cadarnhau, lle mae'r cyrhaeddiad yn uwch, fod hynny'n tueddu i fod oherwydd cefndir cymdeithasol y disgyblion yn hytrach na maint yr ysgolion.

3.61 Er gwaethaf yr uchod, ni chafodd y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth glir a phendant o gwbl fod ysgolion llai yn opsiwn israddol o'u hanfod. Ar y llaw arall, ni chlywsom dystiolaeth sydd wedi'i chadarnhau ychwaith fod pob ysgol fach yn darparu safon uwch o addysg.

3.62 Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw dystiolaeth a oedd yn argyhoeddi bod ysgolion bach yn tanberfformio, er ein bod yn credu bod llawer o'r rhethreg fod ysgolion bach yn darparu gwell profiad addysgol yn ei hanfod hefyd yn gyfeiliornus. Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod ysgol fach yn darparu gwell addysg yn ei hanfod nag ysgol fwy oherwydd yn syml ei bod yn fach neu'n llai.

3.63 Daw'r Pwyllgor i'r casgliad, felly, er bod ysgolion bach yn gallu cyflawni canlyniadau da a rhagorol, fod y pwysau ar yr ysgolion lleiaf un yn golygu bod llawer mwy o risg i safonau a chyflawniadau addysgol disgyblion yn yr ysgolion hyn.

## 4. Y BROSES GAU

4.1 Mae rôl a chyfrifoldebau'r holl asiantaethau a'r rhanddeiliaid sydd â rhan yn y broses wedi'u nodi yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r rheoliadau cysylltiol, ac yng Nghylchlythyr 23/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd).

### Rôl yr Awdurdodau Addysg Lleol

4.2 Cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg lleol (AALlau) yw trefniadaeth y ddarpariaeth addysgol.

4.3 Rhaid i bob AALl baratoi, ymgynghori ynghylch a mabwysiadu Cynllun Trefniadaeth Ysgolion i'w ardal a'i adolygu'n flynyddol. Dylai'r Cynllun asesu'r cyflenwad lleoedd ysgol a'r galw yn ardal yr AALl dros y cyfnod cynllunio pum mlynedd; dylai nodi unrhyw orddarpariaeth neu ddiffyg yn y nifer o leoedd ysgol cynradd ac uwchradd a llunio casgliadau am sut y dylid delio â'r rhain. Rhaid iddo hefyd nodi'r ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn bwriadu ei gwneud ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r Cynllun felly yn gosod y cyd-destun i'r cyhoedd, yr AALl a'r Gweinidog i ystyried cynigion i agor, cau neu newid cymeriad ysgolion unigol. Rhaid i'r Gweinidog ystyried y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion wrth ddod i benderfyniad ar unrhyw gynnig statudol i newid sy'n dod iddi hi iddi benderfynu arno.

4.4 Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 4 Mehefin, honnodd y Deisebwyr mai un o'r materion allweddol oedd awdurdodau lleol yn gweithredu mewn ffordd neilltuol ac yna'n honni, fel cyfiawnhad, eu bod wedi cael eu gorfodi i wneud hynny oherwydd pwysau o du Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau'r nifer o leoedd dros ben.

4.5 Anghytunai'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau â honiadau o'r fath. Haerai mai ei rôl hi oedd gosod y fframwaith a fyddai'n galluogi AALlau i ysgwyddo eu cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn wynebu realiti economaidd eu darpariaeth addysg.

4.6 Cred y Pwyllgor fod rheoli addysg yn fater cymhleth ac anodd. Rôl a dyletswydd yr awdurdodau lleol yw rheoli eu cyllidebau a phennu eu blaenoriaethau gwariant. Câi addysg ei rheoli'n well pe bai'r awdurdodau addysg lleol yn cychwyn dadl onest ac agored am addysg yn eu hardaloedd a honno'n ddadl gadarnhaol, yn hytrach na cheisio bwrw bai nes ei bod yn ymddangos bod addysg plant yn llai pwysig na dianc rhag cael eu beio am bolisïau amhoblogaidd.

*Y Broses Ymgynghori*

4.7 Cafodd y Pwyllgor farn amrywiol am effeithiolrwydd y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â chynigion i ad-drefnu ysgolion. Teimlai rhai tystion fod elfen o 'wneud sioe o ymgynghori' yn perthyn i'r holl broses, er nad oedd hynny'n wir ym mhob achos fel y dangoswyd drwy ymweliad y Pwyllgor â Nanternis.

4.8 Awgrymodd ATL Cymru nad oedd y broses ymgynghori bresennol wedi'i chynllunio i helpu cymunedau i gymryd rhan mewn dadl mor bwysig â'r posibilrwydd o gau eu hysgol leol. Credai fod ymgynghoriadau yn ôl pob golwg yn cael eu gweld yn aml gan awdurdodau lleol fel rhwystr y mae rhaid iddynt ei glirio o'r ffordd wrth iddynt symud tuag at gasgliad y penderfynwyd arno ymlaen llaw.

4.9 Honnai Rosalind Garrett, rhiant plentyn o oed cynradd a oedd yn mynychu ysgol wledig fach yn Sir Faesyfed, fod awdurdodau lleol yn rhy 'llithrig' ynglŷn â'u 'prosesau ymgynghori'. Awgrymodd nad oedd ymgynghoriadau gan awdurdodau lleol ynglŷn â chau ysgol unigol fyth yn ddigon hir i gynhyrchu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol.

4.10 Yn ystod ymweliad ymchwiliol â Hermon yn Sir Benfro, cyfarfu'r Pwyllgor â rhieni a oedd yn anfodlon iawn â'r broses. Teimlent iddynt gael eu hanwybyddu gan yr awdurdod lleol yn ystod y broses i ymgynghori ynghylch cau eu hysgol leol. Teimlai rhai rhieni nad oedd yr awdurdod ond wedi cymryd arno ei fod yn ymgynghori. Cynhaliodd y rhieni ymgyrch faith i wrthdroi penderfyniad yr awdurdod lleol i gau eu hysgol leol, a orffennodd mewn apêl aflwyddiannus i'r Uchel Lys. Roedd y farn hon o du'r rhieni yn gwbl groes i farn Estyn, a oedd yn sôn am Sir Benfro fel yr awdurdod sy'n arwain y ffordd yng Nghymru ar gynllunio lleoedd ysgolion yn effeithiol

4.11 Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Dr Christine Jones, Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Llansadwrn, fod trigolion ardaloedd gwledig, fel Llansadwrn, yn ymwybodol nad yw llawer o ysgolion pentref yn hyfyw yn ariannol a bod ad-drefnu yn anochel weithiau. Y ffordd y caiff hyn ei wneud yw'r broblem wirioneddol. Mae'n credu y byddai ysgol ardal newydd gyda gwell cyfleusterau i bawb yn cael cefnogaeth y gymuned cyn belled â bod y broses ymgynghori yn gynhwysol ac agored.

4.12 Gwnaeth Plaid Lafur Etholaeth Dwyfor Meirionnydd bwynt tebyg, yn honni bod Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar ymgynghori â "llywodraethwyr a rhieni" yn hytrach na chynnwys y gymuned gyfan, gan ddangos "culni'r broses ymgynghori yr ymgymerodd Cyngor Gwynedd â hi wrth lunio'r ddogfen ymgynghori."

4.13 Nid felly yr oedd hi ym mhob ardal serch hynny. Cyflwynwyd darlun hollol wahanol i'r Pwyllgor yn ystod ymweliad tebyg â Nanternis yng Ngheredigion. Yma, roedd y rhieni'n cydnabod na ellid cynnal y tair ysgol leol fach yn y tymor hir. Ceisiasant sicrhau bod rhieni wrth galon y broses i sefydlu ysgol ardal leol newydd yn eu lle a'u bod yn cael eu cynnwys yn gynnar yn y broses. Gweithiodd swyddogion o adran addysg yr awdurdod lleol yn agos gyda'r grŵp ymgyrchu i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r gymuned leol.

**Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cod ymarfer ar ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â'r gymuned y dylai awdurdodau lleol gadw ato wrth reoli'r broses hon.**

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys yr angen i AALlau fod yn agored a thryloyw wrth ymgynghori ynghylch cynigion ad-drefnu ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i ymgynghori ystyrlon, wedi'i seilio ar wybodaeth, fod wrth galon y broses hon.**

## Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru

4.14 Mae gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, rôl i:

- ddarparu fframwaith i awdurdodau lleol i ad-drefnu eu hysgolion pan fyddant wedi nodi angen i wneud hynny, er mwyn rhoi arweiniad ynglŷn â'r drefn y dylent ei dilyn fel arfer;
- penderfynu ar gynigion statudol y ceir anghytuno yn eu cylch.

4.15 Mewn dadl mewn Cyfarfod Llawn ar gau ysgolion bach ym mis Rhagfyr 2007, amlinellodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei darparu i ysgolion bach:

> "Wrth ddangos y polisi cytbwys yr ydym wedi'i sefydlu ar gyfer ysgolion bach, rhaid inni gydnabod bod rhaid i awdurdodau lleol fod yn strategol ynglŷn â rheoli lleoedd ysgol. Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, bydd rhai ysglion bach yn dal i fodoli a chael eu cynnal, ond dylai pa mor fach ydynt a faint ohonynt fydd yna fod yn fater i'r awdurdodau lleol. Mae ansawdd yn llawer pwysicach na maint: pa mor dda y mae ysgolion yn darparu ar gyfer y plant, pa mor dda y gallant gyflawni anghenion y cwricwlwm modern a pha mor dda y gallant barhau i wneud hynny yn y dyfodol…
>
> Ni fyddwn ond yn cytuno i gau ysgol fach pe bai gwneud hynny'n sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr."

### *Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru*

4.16 Dywed canllawiau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â chynigion i gau ysgolion [7],

> Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i sicrhau bod cynigion i ad-drefnu yn adlewyrchu'r angen i gynnal a gwella safonau; i gymryd sylw dyladwy o ddewisiadau rhieni; yn darparu mynediad i ysgolion gweddol leol. Fel arfer ni fyddai'r Gweinidog yn barod i gymeradwyo cau ysgol boblogaidd ac effeithiol oni bai fod tystiolaeth y byddai'r ddarpariaeth amgen yn cynnig addysg o'r un ansawdd ac amrywiaeth o leiaf am gost lai drwyddi draw nag a fyddai wedi bod yn bosibl pe bai'r ysgol wedi aros ar agor.

[7] Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 23/02, *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*, Gorffennaf 2002

Yn achos ysgolion gwledig, rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i'r:

- o sialensiau addysgol sy'n wynebu ysgolion bach;
- o y goblygiadau o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol a siwrneiau sy'n cymryd mwy o amser;
- o effaith gyffredinol cau ysgol ar gymuned ac i ba raddau y mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned gyfan fel adnodd dysgu

Nid yw hyn yn golygu y dylai ysgolion gwledig aros ar agor bob amser ond rhaid i'r achos dros gau fod yn gadarn. Rhaid i'r cynigion fod er lles pennaf y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

4.17 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae adolygiad o'r canllawiau hyn yn destun ymgynghori ar hyn o bryd[8].

4.18 Buwyd yn ymgynghori'n ddiweddar hefyd ynglŷn â rheoliadau drafft i alluogi cyrff llywodraethu unrhyw nifer o ysgolion a gynhelir, yn cynnwys ysgolion meithrin, i ffederaleiddio'n ffurfiol o dan un corff llywodraethu, gan gadw eu hunaniaeth a'u cymeriad unigol yr un pryd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu parodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud newidiadau i reoliadau o'r fath a fydd yn help gwirioneddol i ysgolion bach i weithio'n agosach â'i gilydd lle mae hynny'n bosibl.

4.19 Dadleuodd y deisebwyr:

> canfuwyd bod y canllawiau [ar ad-drefnu ysgolion] yn ddiffygiol o ran ehangder ac eglurder ac nid ydynt wedi cael eu cymryd o ddifrif gan awdurdodau na chan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei hun. Y canlyniad fu agwedd ddi-fudd, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn beio ei gilydd am y 'rheidrwydd' i gau ysgolion cymunedol.

4.20 Honnai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y credir bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi drwy'r drws cefn o orfodi awdurdodau lleol i gau llawer o ysgolion. Dadleuodd hefyd

> Mae'n peri rhwystredigaeth gweld canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu hanwybyddu'n llwyr, heb astudiaeth iawn mewn unrhyw achos o effaith cau ysgol ar addysg y plant, ar y gymuned leol, neu ar yr iaith Gymraeg. A bod yn gwbl onest, mae pawb yn sylweddoli nad yw'r awdurdodau lleol ond yn cymryd arnynt eu bod yn mynd drwy broses.

4.21 Aeth ymlaen i awgrymu y dylai fod methodoleg i fesur effaith cau ysgol ar gymuned a'i hiaith ac ar safonau addysg.

4.22 Anogodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghymru Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddiweddaru ei chanllawiau i adlewyrchu'r angen i gynnal ymgynghoriad manwl ac ystyrlon gyda chymunedau ynglŷn ag unrhyw gynigion cau ac am i'r gasgliadau gael eu cyhoeddi.

---

[8] Ymgynghoriad ar y Cylchlythyr: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion, Dogfen Ymgynghori Rhif: 060/2008, Hydref 2008

**Argymhelliad 9: Yn ei chanllawiau diwygiedig, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro a ffurfioli rôl yr holl randdeiliaid yn y broses gau. Dylai'r canllawiau diwygiedig ei gwneud yn glir fod disgwyl i awdurdodau lleol fynd ati o ddifrif i roi gwybodaeth i gymunedau lleol ac yna helpu'r cymunedau hynny i gymryd rhan yn y ddadl ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd mewn unrhyw ardal neilltuol yn y dyfodol.**

*Rhagdybiaeth yn erbyn Cau Ysgolion Bach*

4.23 Dadleuodd y deisebwyr o blaid rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion bach, gan honni bod ysgolion bach yn adnodd gwerthfawr ac y dylent aros ar agor oni bai fod rhesymau addysgol cryf iawn dros gau'r ysgolion hynny.

4.24 Dywedodd y Gweinidog nad oedd y canllawiau presennol yn cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion bach, gwledig, ond nid oedd rhagdybiaeth o blaid ychwaith. Câi pob cynnig yr oedd angen i'r Gweinidog benderfynu arno ei farnu ar ei haeddiant unigol. Câi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn eu pwyso'n ofalus cyn gwneud penderfyniad. I gael ei gymeradwyo, roedd rhaid i'r achos dros gau fod yn gadarn ac yn amlwg er lles pennaf y disgyblion, ac roedd hyn yn wir ni waeth a oedd y cyd-destun yn wledig ynteu'n drefol. Roedd y Gweinidog hefyd yn ceisio cyngor pellach gan Estyn ar bob cynnig sy'n dod gerbron.

4.25 Wrth ystyried y mater hwn, edrychodd y Pwyllgor ar y polisïau y mae Gweinyddiaethau eraill y DU yn eu dilyn.

*Lloegr*

4.26 Mae Llywodraeth y DU wedi pwysleisio bod ysgolion gwledig yn chwarae rhan bwysig yn cynnal hyfywdra cefn gwlad, ac mae wedi ei gwneud yn glir fod rhaid i'r achos dros gau fod yn un cryf.

4.27 Cyflwynwyd rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ym 1998. Cryfhaodd canllawiau diwygiedig, a ddaeth i rym o 1 Hydref 2004, y rhagdybiaeth drwy ei gwneud yn ofynnol i AALlau neu gyrff llywodraethu sy'n bwriadu cau ysgol wledig ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eu bod wedi ystyried amryw o ffactorau (h.y. y goblygiadau cludiant, yr effaith ar y gymuned a dewisiadau amgen yn lle cau).

*Gogledd Iwerddon*

4.28 Mae dogfen ddrafft ar *Schools for the Future: A Policy for Sustainable Sch*ools[9] yn nodi chwe maen prawf i helpu i asesu hyfywdra ysgolion. Maent yn cwmpasu profiad addysgol y plant, y tueddiadau cofrestru, y sefyllfa ariannol, arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol, hygyrchedd, a pha mor gryf yw'r cysylltiadau â'r gymuned. Dywed y ddogfen nad yw ystyried y meini prawf a'r dangosyddion cynaliadwyedd yn golygu, lle nodir problemau, fod

[9] Adran Addysg Gogledd Iwerddon, *Schools for the Future - A policy for sustainable schools*, 2007

rhaid bwrw ymlaen i gau neu uno, ond dylai anawsterau gydag un neu fwy o'r ffactorau dynnu sylw at yr angen am adolygiad a gwerthusiad mwy manwl.

4.29 Cydnabyddir hefyd fod angen ystyried amgylchiadau lleol wrth benderfynu pa gamau sy'n briodol e.e. gallai pa mor anghysbell yw'r ardal fod yn bwysig. Wrth ystyried opsiynau posibl megis uno neu gau, dylid seilio'r penderfyniad ar ystyriaethau addysgol, economaidd a chymunedol. Felly, bydd angen parhau i werthuso amgylchiadau unigol pob achos, i sicrhau bod y plant yn cael y profiadau addysgol gorau posibl a'u bod yn cyrraedd y safonau uchaf posibl

*Yr Alban*

4.30 Rhwng mis Mai a mis Medi 2008, bu Llywodraeth yr Alban yn ymgynghori ar fater cau ysgolion gwledig[10]. Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu deddfu i gyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, nid i atal unrhyw gau neu bob cau o'r fath yn y dyfodol ond i geisio sicrhau mai dim ond fel cam eithaf y gwneir penderfyniad i gau, ac nid nes bydd pob opsiwn amgen wedi cael ei archwilio ac y bydd yr effaith bosibl ar y gymuned wedi cael ei hystyried yn llawn.

4.31 Ystyriodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd gan weinyddiaethau eraill ond ni theimlai ei fod wedi cael digon o dystiolaeth i gefnogi argymhelliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru o blaid cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau yng Nghymru. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y rhagdybiaeth yn erbyn cau mewn gweinyddiaethau eraill yn tueddu i amddiffyn ysgolion sy'n llawer mwy na'r cyfartaledd yng Nghymru.

[10] Llywodraeth yr Alban, *Safeguarding our rural schools and improving school consultation procedures*, Mai 2008

## 5. EFFEITHIAU CAU

5.1 Gall unrhyw newid i fywyd person ifanc gael effaith fawr ac mae angen ymdrin â'r newid mewn ffordd sensitif a chyda chydymdeimlad. Mae llawer o faterion ynghlwm wrth gau ysgol a gall yr effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, gan effeithio nid yn unig ar y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ysgol ond ar y gymuned ehangach hefyd. Megis gydag unrhyw broses, bydd canlyniadau negyddol yn ogystal â chadarnhaol. Gall y ffordd y rhagwelir y canlyniadau hyn ac yr ymdrinnir â nhw ddylanwadu'n sylweddol ar y ffordd y caiff llwyddiant y broses ei ddirnad.

### Yr effaith ar ddisgyblion

5.2 Ar wahân i dystiolaeth anecdotaidd gan rieni a awgrymai fod ysgolion bach yn well a bod plant yn hapusach ynddynt, ni chafodd y Pwyllgor fawr o dystiolaeth fesuradwy ynglŷn â'r effaith niweidiol ar ddisgyblion yn deillio o ad-drefnu ysgolion.

5.3 Yn wir, awgrymai tystiolaeth gan yr Athro Reynolds fod y disgyblion yn yr ysgolion yn Sir Benfro a ad-drefnwyd yn gwneud yn well ar ôl yr ad-drefnu na'r rhai a oedd yn yr ysgolion nad ad-drefnwyd mohonynt. Dadleuai fod yn well gan y plant yr ysgolion mwy, gan fod ganddynt fwy o ffrindiau, fod yno fwy o dimau chwaraeon, a bod yno fwy o adnoddau. Dadleuai hefyd fod manteision sylweddol i athrawon a phenaethiaid mewn ysgol o dri i bedwar athro, yn hytrach nag un neu ddau athro, o ran arbenigo a chyfle i ganolbwyntio at gynlluniau a phrosiectau newydd. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod cyfyngiadau ei astudiaeth o ysgolion bach, ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil ehangach a mwy trylwyr i gyflawniadau academaidd disgyblion ar ôl iddynt symud ymlaen i ysgol fwy, gan addasu'r data ar gyfer cefndir.

5.4 Yn ôl Estyn

> Nid oes tystiolaeth fod ysgolion bach yn cael gwell canlyniadau nag ysgolion mawr na bod safonau'n dirywio pan fydd ysgolion bach yn cau a phlant yn trosglwyddo i ysgolion mwy, wedi'u huno.

5.5 Roedd Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) Cymru yn rhannu'r farn hon. Dadleuai fod diffyg tystiolaeth i gefnogi llawer o'r honiadau a wnaed ynglŷn â'r manteision y gallai ysgolion llai eu rhoi i ddisgyblion. Awgrymodd Estyn hefyd fod ysgolion bach yn cyfyngu ar yr amrywiaeth cyfleoedd rhyngweithio a gweithgareddau chwaraeon, cymdeithasol a diwylliannol sy'n dibynnu ar grwpiau mawr neu ar fod yn rhan o dîm.

5.6 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd gweithgareddau allgyrsiol fel ffordd o godi hunan-barch ac o gynyddu cyfranogiad mewn addysg.

5.7 Dadleuai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, fodd bynnag, ei bod yn bosibl goresgyn anfanteision, megis nad oes digon o blant o'r un oedran i greu tîm pêl-droed, drwy ffyrdd mwy positif o ddod ag ysgolion ynghyd i gydweithredu.

5.8 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at effaith amseroedd teithio hirach ar ddisgyblion ifanc o ganlyniad i ad-drefnu ysgolion. Fodd bynnag, amhendant oedd canlyniad ymchwil a wnaed gan yr Athro Bramley, a oedd yn cynnwys archwilio a yw'r pellter i'r ysgol ar gyfartaledd i ddisgyblion yn cael unrhyw effaith ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o blant yng nghefn gwlad Cymru eisoes yn teithio cryn bellter i'r ysgol bob bore heb fawr ddim effaith negyddol, neu ddim effaith o'r fath o gwbl, ar eu cyrhaeddiad addysgol na'u datblygiad cymdeithasol.

5.9 Mae'r Pwyllgor o'r farn nad oes fawr o amheuaeth fod ysgolion mwy yn darparu mwy o ystod o gyfleoedd i blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau, o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Noda'r Pwyllgor ymhellach nad oes unrhyw alw o du rhieni na disgyblion ysgolion sydd newydd gael eu had-drefnu am ddychwelyd i'r ddarpariaeth flaenorol a'r cyfluniad ysgolion blaenorol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn ynddo'i hun yn dangos, lle mae'r awdurdodau lleol yn cael y broses a'r model addysg yn iawn, fod hynny'n cael ei werthfawrogi gan gymunedau.

**Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu ymchwil i'r effeithiau academaidd a chymdeithasol ar blant ar ôl iddynt symud i ysgol fwy.**

### Yr effaith ar y gymuned

Gall cau ysgol bentref fod yn ergyd angheuol i'r gymuned.
Stephen Byers, Y Gweinidog Addysg, 1998

5.10 Mynegodd nifer fawr o ymatebwyr bryder ynglŷn ag effaith cau ysgolion ar gymunedau lleol a'r ffaith nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i hynny yn y broses benderfynu. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod ymdeimlad cryf o berchenogaeth dros ysgolion bach mewn cymunedau gwledig, anecdotaidd gan mwyaf oedd y rhan fwyaf o dystiolaeth a gafwyd am yr effaith.

5.11 Yng Ngogledd Iwerddon, mae adroddiad diweddar gan Gyngor Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (Striking the Balance: Towards a Vision and Principles for Education in Northern Ireland: A Rural Proofing Study[11]) yn ceisio prawfesur y polisïau ysgolion bach o safbwynt anghenion cefn gwlad. Ceisiodd yr adroddiad hwn ddefnyddio astudiaethau achos i ddadansoddi effaith bosibl cau ysgolion ac uno ysgolion ar gymunedau gwledig. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda rhieni i ddeall eu barn am effaith y datblygiadau hyn ar ffactorau fel yr 'ymdeimlad o gymuned' a'r patrwm cyfalaf cymdeithasol (h.y. perthnasoedd yn y gymuned). Rhydd hyn rywfaint o ddadansoddi ansoddol inni o rôl ysgol mewn cymuned wledig

[11] Y Cyngor Datblygu Gwledig, Striking the Balance, Gorffennaf 2008

5.12 Nododd y Pwyllgor fod yr astudiaeth hon yn ceisio ymchwilio i faint y cyswllt rhwng ysgol fach a'i chymuned leol, a'i chyfraniad at gyfalaf cymdeithasol lleol. Disgrifiodd yr adroddiad hwn rai o'r normau, y rhwydweithiau cymdeithasol a'r perthnasoedd rhyngbersonol sy'n cyfrannu at dwf plentyn. Mae hefyd yn nodi bod effaith cyfalaf cymdeithasol ar blant yn ymestyn y tu hwnt i glwyd yr ysgol, sy'n dangos bod cysylltiadau ehangach felly â theuluoedd ac wedyn â'r gymuned ehangach.

5.13 Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw'r berthynas rhwng cau neu yn wir agor ysgol ac ymdeimlad o gymuned yn ddiamwys. Ar yr un llaw, nid yw'n ymddangos y bydd cau yn arwain yn awtomatig at lai o ymdeimlad o gymuned – mae llawer yn dibynnu ar beth arall sydd yna. Ar y llaw arall, nid yw agor ysgol newydd yn gwarantu y caiff ymdeimlad o gymuned ei gynnal oherwydd gallai datblygiadau tai newydd, y gallai fod cysylltiad rhyngddynt ag apêl cyfleuster ysgol newydd, arwain at lu o fewnfudwyr ac, yn sgil hynny, wanhau'r ymdeimlad o gymuned. Mae'n ymddangos y bydd angen rhywfaint o gymorth datblygu cymunedol yn y naill sefyllfa neu'r llall i gynnal ymdeimlad o gymuned.

5.14 Yn ôl Estyn, câi'r ysgol ei gweld yn aml fel y canolbwynt olaf a oedd yn weddill mewn cymunedau gwledig, sydd

> yn tueddu i gynyddu eu hapêl emosiynol a gall goroesiad yr ysgol ddod i gael ei ystyried fel goroesiad y gymuned fel endid dichonadwy.

5.15 Dadleuodd ymhellach fod y ddadl hon, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ddweud rhy fawr, er ei fod yn cydnabod ar yr un pryd bod yr ysgol yn darparu cyfrwng rhyngweithio rhwng rhieni a'r gymuned ehangach na ellir ei ddisodli'n hawdd.

5.16 Wrth gyfeirio at ei adroddiad ar gau ysgolion bach yng Nghymru, dywedodd yr Athro Reynolds,

> yr argymhelliad y byddwn i'n rhoi'r pwyslais mwyaf arno yw sicrhau bod adeiladau'r ysgol ar gael at ddefnydd y gymuned ac nad ydynt yn adfeilio nac yn cael eu trosglwyddo i eraill.

5.17 Mae ymchwil pellach gan yr Athro Reynolds yn disgrifio'r newidiadau sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion fel peth positif i blant a rhieni, nid peth negyddol. Ar ôl ad-drefnu, honna'r Athro Reynolds fod rhieni mwy na thebyg yn ystyried eu cymuned fel un fwy, ond nad yw'n ddigon mawr i beri dryswch nac i fod yn afreolaidd mewn unrhyw ffordd. Nid oedd y rhieni o'r farn fod y gymuned yn dioddef o gwbl ac, i'r plant, roedd yn golygu rhagor o ffrindiau yn yr ystyr fod eu byd wedi tyfu, ond fod adnoddau pentref a chymuned fach yn dal ar gael iddynt ac roedd hyd yn oed y byd mwy, newydd, hwn yn dal yn reit fach mewn termau real a chymharol.

5.18 Tanlinellodd Cymdeithas y Cymunedau yng Nghymru sydd ag Ysgolion Bach yr angen i integreiddio ysgolion cymunedol ac adeiladau sector cyhoeddus eraill fel adnoddau corfforol i'r gymuned. Byddai hynny'n sbarduno

gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol a mentrau cymdeithasol cynaliadwy ac yn hyrwyddo trosglwyddo asedau adeiladau ysgolion er mwyn iddynt ddod yn gwmnïau cydweithredol cymunedol. Cefnogwyd y farn hon gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghymru, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig. Cred y Pwyllgor fod dull gweithredu o'r fath yn bwysig i sicrhau bod gan gymunedau leoedd lle gall pobl ryngweithio.

5.19 Gwnaeth tystiolaeth rhieni yn ystod yr ymweliad â Hermon argraff ar y Pwyllgor. Yn amlwg, roedd llawer iawn o ddicter a rhwystredigaeth tuag at yr awdurdod lleol. Roedd llawer iawn o bryder hefyd ynglŷn ag effaith cau ysgolion lleol ar y gymuned. Fodd bynnag, roedd yn drawiadol na siaradodd yr un o'r rhieni am fudiadau lleol neu grwpiau cymunedol megis Merched y Wawr neu'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Cred y Pwyllgor fod hon yn weledigaeth gyfyng iawn o'r gymuned ac yn ôl pob tebyg nid yw'n cynrychioli bywiogrwydd y pentrefi a'r cymunedau yn yr ardal gyfagos.

5.20 Awgrymodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghymru mai'r ysgol leol oedd yr unig rwydwaith cymdeithasol a oedd ar ôl yn aml mewn cymunedau, wrth i wasanaethau lleol fel swyddfeydd post, siopau bach, ysbytai a banciau gau. Dadleuodd ymhellach fod cau ysgolion yn effeithio ar fywiogrwydd cymunedau ac yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol, gan effeithio ar yr iaith a'r ysbryd o gymuned. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn rhannu'r farn hon, gan honni,

> unwaith y collwch chi'r ysgol yn eich cymuned eich hunan, mae'r holl ymdeimlad o gymuned ymysg y plant a'u rhieni yn cael ei golli.

5.21 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y teimlad a'r argraff hon yn bodoli mewn llawer o gymunedau ond mae'n pryderu bod y ddadl hon yn cael ei defnyddio ar adegau heb ddangos y dystiolaeth i'w chynnal. Yn wir, ar ei ymweliad â Nanternis, gwelodd y Pwyllgor agwedd dra gwahanol. Yno, roedd y rhieni'n credu mai dim ond un elfen o'r gymuned oedd yr ysgol ac, er ei bod yn elfen bwysig, ni fyddai ei chau yn golygu diwedd ar fywiogrwydd y gymuned honno. Yma, roedd y bobl yn gweld y gymuned fel cyfanswm amryw o fathau gwahanol o ryngweithio rhwng gwahanol bobl, grwpiau o bobl ac eraill mewn ffyrdd gwahanol iawn. Mae'r Pwyllgor yn gweld hyn fel gweledigaeth lawer mwy positif o gymuned fywiog.

5.22 Disgrifiodd rhai tystion le'r gymuned yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol i ddisgyblion o ran awyrgylch cefnogol a'r bartneriaeth rhwng rhieni ac ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hyn yn bodoli mewn rhai cymunedau ond nid yw wedi'i argyhoeddi mai nodwedd sy'n diffinio ysgolion bach yn unig yw hyn.

5.23 Dadleuodd Dr Alexandra Plows, ar ran Ysgol Gynradd Rhiwlas, nad oes fawr o ymchwil sy'n diffinio ac yn asesu cyfraniad ysgolion lleol i bentref gwledig a bywyd cymunedol ac at dargedau polisi cenedlaethol ehangach, a hyd yn oed lai ar effaith cael gwared ag adnoddau o'r fath.

5.24 Honnai Un Llais Cymru ei bod yn eithriadol o anodd mesur y manteision ehangach a ddaw i gymuned yn sgil presenoldeb ysgol. Credant fod ysgol yn gallu bod yn ffactor pwysig yn dylanwadu ar symud i'r ardal ac ar atal pobl ifanc rhag symud o gymunedau gwledig; felly, gellir ystyried cynnal ysgol mewn ardal wledig fel buddsoddiad yn nichonoldeb cymuned yn y dyfodol.

5.25 Mewn rhai achosion, mae colli adeilad ysgol fel gofod cymunedol yn enghraifft glir o sut y bydd cau ysgol yn effeithio ymhellach ar gymuned y tu hwnt i golli adnodd addysgol. Mae hon yn golled ddealladwy, amlwg ac yn un a fydd wrth gwrs yn effeithio ar allu cymuned i weithredu ac i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith hon ar ei phen ei hun arwain y ddarpariaeth adnoddau addysgol. Mae'n annerbyniol y gallai plant ifanc o bosibl gael safon is o addysg dim ond er mwyn darparu neuadd lle gallai grwpiau cymunedol gwrdd o bryd i'w gilydd.

5.26 Dadleuodd y deisebwyr nad oes rheswm, heb ysgol, i deuluoedd â phlant symud i'r ardal neu aros, felly byddai'r boblogaeth yn heneiddio, gan ddwysáu'r tueddiadau demograffig a rhoi beichiau sy'n cynyddu'n barhaus ar y gwasanaethau gofal.

5.27 Nid yw'r Pwyllgor yn derbyn y dystiolaeth hon. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod argaeledd cyfleusterau addysg lleol, a mynediad iddynt, yn ystyriaeth allweddol i rieni. Fodd bynnag, noda'r Pwyllgor hefyd mai'r mater mwyaf sy'n wynebu teuluoedd ifanc yng nghefn gwlad Cymru ar hyn o bryd yw argaeledd tai fforddiadwy a swyddi.

5.28 Mae'r Pwyllgor yn bryderus fod y cysyniad o gymuned a ddisgrifiwyd gan rai tystion wedi'i wreiddio i ryw raddau, ac mewn rhai achosion, mewn ymateb emosiynol yn hytrach nag yn realiti rhyngweithio dynol – a'r newidiadau sy'n digwydd mewn unrhyw gymuned dros amser. Bu'n siomedig gyn lleied o dystiolaeth solet, rymus am effaith cau ysgol ar gymuned a gyflwynwyd gan y grwpiau hynny sy'n gwrthwynebu cau ysgolion cynradd lleol.

5.29 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd colli ei hysgol yn cael ei gweld fel ergyd aruthrol i unrhyw gymuned, boed wledig neu drefol, ond mae'n bendant o'r farn nad yw hynny'n rheswm digonol i gynnal eiddo anghynaliadwy, nad yw'n perthyn i'r oes sydd ohoni. Prif ddiben ysgol o reidrwydd yw darparu'r addysg orau bosibl i'r plant y mae'n eu gwasanaethu. Mantais ychwanegol yw unrhyw fudd cymunedol pellach ond ni ellir ei ddefnyddio fel rheswm o blaid cadw ysgol lle nad yw'r ysgol honno efallai yn darparu'r cyfleoedd addysgol gorau i'w disgyblion.

5.30 Mae'r Pwyllgor yn deall y bydd y diwygio arfaethedig ar ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ad-drefnu ysgolion yn cynnwys argymhelliad y dylai AALlau ystyried effaith gyffredinol cau ar y gymuned. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datblygiad hwn.

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i asesu a llwyr ddeall effaith cau ysgolion ar gymunedau yng nghefn gwlad Cymru.**

**Argymhelliad 12: Dylai AALlau gynnal asesiadau trylwyr o'r effaith ar y gymuned cyn cau unrhyw ysgol fach. Ar sail ei hymchwil ei hun, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau i AALlau ar ymgymryd ag asesiadau o'r fath o'r effaith ar y gymuned.**

**Yr effaith ar yr iaith Gymraeg**

5.31 Dadleuodd llawer o ymatebwyr fod presenoldeb ysgol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn gallu cyfrannu'n sylweddol at gynnal yr iaith yn y gymuned. Fodd bynnag, honnodd Estyn nad oes tystiolaeth fod safonau yn y Gymraeg yn dirywio pan fydd ysgolion bach mewn ardaloedd o Gymru lle siaredir y Gymraeg gan y mwyafrif o bobl yn cau a bod y disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion mwy.

5.32 Lle caiff ysgolion cyfrwng Cymraeg eu cau, cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod y Gymraeg yn cael ei gweld yn gynyddol fel iaith yr ystafell ddosbarth yn hytrach nag iaith y gymuned. Dadleuai ymhellach fod ysgolion pentref Cymraeg yn arbennig o effeithiol yn cymhathu plant mewnfudwyr i gymunedau pentref Cymraeg eu hiaith, gan eu bod yn gallu cynnig yr iaith fel allwedd i ymuno yn y gymuned.

5.33 Awgrymodd un ymatebydd mai un o'r prif fygythiadau i barhad y defnydd o'r Gymraeg oedd teuluoedd di-Gymraeg yn symud i ardaloedd Cymraeg eu hiaith, ac mai,

> dysgu'r Gymraeg yn effeithiol mewn ysgolion cynradd oedd y brif ffordd o wrthweithio hyn.

5.34 Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Reynolds iddo synnu bod canlyniadau ei ymchwil yn dangos nad oedd y Gymraeg wedi cael ei gwanhau, ym marn yr ymatebwyr. Roeddent yn awgrymu y gallai fod ar ei hennill am fod yr iaith yn gallu elwa o fàs critigol. Awgrymodd fod angen ymchwil pellach i ganfod a yw cau yn cael effaith ieithyddol yn gwanhau'r iaith Gymraeg.

**Argymhelliad 13: Y dylai'r effaith ar yr iaith gael ei hystyried yn un o'r prif ffactorau penderfynu pan fydd awdurdodau leol yn penderfynu ynglŷn â chau ysgolion.**

## 6. OPSIYNAU AMGEN YN HYTRACH NA CHAU

6.1 Mae'r adroddiad hwn wedi trafod ac archwilio'r broses o gau ysgolion a'r rhesymau am benderfyniadau o'r fath. Nid yw'r Pwyllgor wedi archwilio unrhyw strwythurau neu fodelau llywodraethu amgen i ysgolion yn fanwl.

6.2 Fodd bynnag, wrth gymryd tystiolaeth, rhoddwyd nifer o opsiynau a dewisiadau amgen yn lle cau i'r Pwyllgor.

6.3 Yn amlwg, bydd rhai o'r opsiynau amgen hyn yn fwy perthnasol i rai ardaloedd nag eraill. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd gwahanol gymunedau yn ceisio gwahanol atebion. Cred y Pwyllgor mai rôl awdurdodau lleol yw hwyluso'r ddadl hon ac arwain trafodaeth onest ac agored gyda chymunedau lleol.

6.4 Isod, amlinellir y mathau mwyaf cyffredin o ad-drefniadau ysgolion bach ac enghreifftiau o'r ymarfer arloesol a chreadigol sydd ar waith yng Nghymru i geisio goresgyn y sialensiau a wynebir gan ysgolion bach.

*Modelau Amgen*

6.5 Dywedodd Estyn fod y mathau mwyaf llwyddiannus o ad-drefniadau ysgolion bach ar hyn o bryd, o safbwynt safonau addysgol ac ansawdd y ddarpariaeth, yn cynnwys:

- ysgolion ardal,
- ysgolion mewn ffederasiwn (drwy gyfuno), wedi'u trefnu fel bod disgyblion o'r un oed yn cael eu lleoli gyda'i gilydd;
- ysgolion mewn ffederasiwn anffurfiol, h.y. yn rhannu pennaeth.

6.6 Defnyddiwyd y diffiniadau isod gan Estyn yn ei adroddiad *Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru*[12]:

> ***Ysgol ardal***
> Yn y math hwn o drefniadaeth, gellir cau dwy neu fwy o ysgolion a'u disodli gan un ysgol fwy. Gellir lleoli hon ar safle newydd, neu ar un o'r hen safleoedd gydag adeiladau wedi'u hailwampio. Mae'n ofynnol cael cynigion ad-drefnu statudol ar gyfer datblygiadau felly.
>
> ***Ffederasiwn***
> Mae ffederasiwn yn digwydd pan gaiff dwy neu fwy o ysgolion eu cau i greu un ysgol 'safle rhanedig' gydag un pennaeth ac un corff llywodraethu. Gall y pennaeth a'r corff llywodraethu ddewis dal i weithredu pob safle fel uned gymharol annibynnol yn cwmpasu'r ystod oed lawn.
>
> ***Clwstwr***

[12] Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru, Estyn, Chwefror 2006

**Clwstwr anffurfiol -** mae hyn yn golygu cyfnewid penaethiaid ac athrawon ysgolion cyfagos i drafod materion cyfredol.

**Clwstwr ffurfiol –** Mae'r math hwn o drefniadaeth yn golygu mwy o gydweithio a chydweithredu ffurfiol rhwng ysgolion.

6.7 Mae'r Pwyllgor yn deall bod llwyddiant trefniadau clystyru ysgolion bach yn dibynnu'n helaeth ar y berthynas a sefydlir rhwng yr ysgolion sy'n cydweithio. Yn gyffredinol, mae trefniadau cydweithio yn fwy effeithiol pan fydd staff yn ymrwymo i'r trefniadau hyn o'u gwirfodd fel partneriaid cydradd. Pan fydd llai o ysgolion yn rhan o drefniant clystyru, mae'n fwy tebygol y bydd y lefel o gydweithio yn parhau'n un anffurfiol

6.8 Awgrymodd Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Llansadwrn mai'r unig adeg pan fydd ffederasiwn yn gweithio'n wirioneddol lwyddiannus yw pan fydd yr ysgolion dan sylw yn debyg o ran maint. Fel arall, bydd ystyriaethau cyllidebol yn golygu bod yr unedau bach bob amser yn dioddef. Awgrymodd fod llawer o ysgolion gwledig eisoes yn gweithio'n agos â'i gilydd ar sail anffurfiol ac y dylai hyn gael ei gydnabod a'i annog yn fwy gweithgar ar lefel uwch.

6.9 Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, awgrymodd Estyn nad yw'r atebion sydd ar gael i ardaloedd trefol wrth ddelio â niferoedd disgyblion yn bodoli. Mae costau trafnidiaeth yn ystyriaeth sylweddol iddynt, ond nid yw atebion fel clystyru ysgolion neu ffederasiynau ac ati yn ymarferol, oherwydd y pellteroedd dan sylw.

6.10 Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod angen canfod patrymau gwahanol sy'n gweddu i amgylchiadau lleol. Gallai plant o wahanol ysgolion ddod ynghyd i ymgymryd â gwahanol weithgareddau, megis diwrnod chwaraeon, a gallai athrawon sydd â rhyw arbenigedd o fewn dalgylch ymweld â'r holl ysgolion yn y dalgylch hwnnw. Haerai fod yna ffyrdd creadigol o ddatrys unrhyw broblemau addysgol o'r fath, ac aeth ymlaen i ddweud y byddai'n well pe gallem greu systemau sy'n seiliedig ar gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth, lle gallai pawb gydweithio i sicrhau dyfodol ein hysgolion a'n cymunedau, a bod yr ysgolion hynny y gorau y gallent fod.

## Enghreifftiau o ddarpariaeth amgen

### Astudiaeth achos 1[13]

**Ysgol Y Dderi, Ceredigion - ysgol ardal**
Agorwyd yr ysgol gynradd hon o 121 o ddisgyblion yng Ngheredigion wledig fel ysgol ardal ym 1976 yn sgil cau chwe ysgol bentref. Mae gan yr ysgol hanes hir o weithio fel ysgol fro drwy ddarparu cyfleusterau i'r gymuned eu defnyddio a chynnal ystod o weithgareddau dysgu cymunedol. Gwelodd grant ysgolion bro Llywodraeth Cynulliad Cymru fel ffordd o ddatblygu'r agwedd hon ymhellach ac, yn arbennig, o gyflogi cyd-drefnydd cymunedol. Cynhaliodd y cyd-drefnydd archwiliad yn y chwe phentref i nodi'r ddarpariaeth bresennol a'r bylchau. Arweiniodd hyn at gynhyrchu calendr

[13] Astudiaeth Achos 1, Ysgol y Dderi - rhan o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan ContinYou Cymru

digwyddiadau sy'n cael ei gynhyrchu bedair gwaith y flwyddyn erbyn hyn. Mae monitro anffurfiol yn awgrymu bod mwy o bobl, a mwy o bobl newydd, yn mynychu dosbarthiadau a digwyddiadau amrywiol yn y cymunedau i gyd. Datblygwyd perthynas â grŵp hanes - yn cynnwys pobl o'r cymunedau lleol - sydd ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r Fictoriaid a bydd yn cynhyrchu llyfryn y gall yr ysgol ei ddefnyddio gan y bydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm Hanes. Ymysg y cynlluniau eraill mae datblygu gardd organig ar y cyd â phobl leol sydd â sgiliau garddio, cynorthwywyr addysgu a phlant a phobl ifanc. Mae'r cyd-drefnydd wedi llwyddo i sicrhau £14,000 o grant Ansawdd yr Amgylchedd Lleol y Cynulliad i ychwanegu gwerth at y datblygiad hwn.

**Astudiaeth achos 2[14]**

**Ysgol Carreg Hirfaen – ffederasiwn**
Ffederasiwn Ysgol Carreg Hirfaen (Coetmor, [sic]) yn Sir Gaerfyrddin. Crëwyd y ffederasiwn ddegawd yn ôl drwy uno 3 ysgol – un â 9 o ddisgyblion, un â 19 o ddisgyblion a'r llall â 55 o ddisgyblion. Tyfodd yr ysgol ffederal hon i gyrraedd y nifer o ddisgyblion sydd ganddi heddiw, sef y nifer a ddyfynnir yn y cynllun drafft. Mae'r safleoedd llai yn agos iawn at ei gilydd, felly mae plant CA1 y ddau bentref ar un safle, a phlant CA2 ar y safle arall. Mae un o'r safleoedd yn agor a chau 10 munud cyn y llall fel bod rhieni'n gallu casglu plant o'r naill safle a'r llall. Pennaeth y safle mwyaf (nad yw'n bennaeth di-gyswllt) yw pennaeth yr ysgol ffederal gyfan. Rhoddaf y manylion hyn i ddangos mor hyblyg y gall ffederasiwn llwyddiannus fod. Yn wir, hyblygrwydd y cysyniad yw ei lwyddiant, gan ei fod yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol. Cafodd y cynllun ei greu gan y cymunedau yn hytrach na swyddogion, a fu'n hwyluso'r broses. Gall llywodraethwyr ysgol ffederal newid y trefniadau wrth i'r amgylchiadau newid.

6.11 Er ei fod wedi'i nodi yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fel enghraifft o arfer da, yn y cyfarfod ar 25 Mehefin mynegodd cynrychiolwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg bryder bod Cyngor Sir Gaerfyrddin erbyn hyn yn ystyried newid y trefniadau yn Ysgol Carreg Hirfaen.

6.12 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod enghreifftiau o gydweithio creadigol ac arloesol eisoes ar waith ar draws Cymru ac mae'n credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud mwy i gefnogi trefniadau o'r fath.

[14] Astudiaeth Achos 2, Ysgol Carreg Hirfaen - rhan o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

## 7.Y FFORDD YMLAEN

7.1 Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaeth â llywodraeth leol yn darparu addysg gynradd newid er mwyn adlewyrchu profiadau a gwybodaeth a dealltwriaeth leol yr awdurdod lleol yn well.

7.2 Hoffai'r Pwyllgor weld y cydbwysedd yn gogwyddo tuag at yr awdurdodau lleol ac oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai hyn yn grymuso cymunedau lleol ac yn golygu bod modd cynnal dadl fwy deallus a gonest mewn gwahanol gymunedau nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

7.3 Cred y Pwyllgor fod amheuaeth gyhoeddus gyffredin ynglŷn â'r prosesau a ddilynir gan awdurdodau lleol wrth drafod moderneiddio ysgolion ac ad-drefnu. Mewn rhai rhannau o Gymru mae'r amheuaeth hon mor fawr fel y byddai'n well ei disgrifio fel sinigiaeth neu hyd yn oed ddrwgdybiaeth lwyr.

7.4 Mae angen adennill ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system a'r prosesau.

7.5 Mae angen eglurder a gonestrwydd yn y ddadl gyhoeddus. Dylai cynghorwyr a swyddogion cyngor wynebu materion ad-drefnu ysgolion, lleoedd dros ben a buddsoddi yn y seilwaith ysgolion heb feio Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn nac unrhyw un arall am y penderfyniadau caled ac anodd y mae rhaid eu gwneud mewn gweinyddiaeth gyhoeddus a llywodraeth leol ar unrhyw lefel.

7.6 Os yw awdurdodau lleol i barhau'n gyfrifol am ysgolion yng Nghymru, rhaid iddynt adennill ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd yn eu prosesau a chynnal dadl onest gyda chymunedau lleol.

7.7 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, cred y Pwyllgor y dylai Gweinidog Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru golli ei hawl i benderfynu ar gau ysgolion. Ar hyn o bryd, mae'r ffaith fod y Gweinidog yn gallu ymyrryd a chymryd penderfyniadau allan o ddwylo'r awdurdod lleol a'r gymuned leol yn golygu bod y broses (a'r penderfyniadau) yn cael eu gweld yn rhy aml fel rhywbeth sy'n cael ei "orfodi" ar gymunedau yn hytrach na chanlyniad trafod deallus, ar sail gwybodaeth.

7.8 Yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn gweld rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog fel rôl gwarantwr y broses yn hytrach na rhywun sy'n rhan o'r broses. Mae'r Pwyllgor yn gweld rôl y Gweinidog fel rôl i sicrhau bod pob cymuned yn gallu manteisio ar broses ymgynghori lawn ac ystyrlon. Os yw'r broses yn dda ac yn ystyrlon, priod rôl yr awdurdod lleol, a'r awdurdod lleol yn unig, fyddai penderfynu ar gyfluniad addysg gynradd yn yr ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu.

## 8. I GLOI

8.1 Mae hwn wedi bod yn ymchwiliad anodd i'r Pwyllgor ymgymryd ag ef, yn rhannol oherwydd y diffyg ymchwil a thystiolaeth fesuradwy sydd ar gael ac yn rhannol oherwydd yr ymateb cryf y mae cau ysgolion yn ei ysgogi mewn cymunedau.

8.2 Cred y Pwyllgor ei bod yn anochel y caiff rhai ysgolion bach iawn eu cau. Mewn rhai achosion efallai yr ystyrir bod nifer y disgyblion mor isel a chyflwr adeiladau'r ysgol mor wael fel na ellir ei hystyried yn gynaliadwy. Credwn fod gan blant yng Nghymru hawl i'r addysg a'r cyfleusterau gorau sydd ar gael yn yr 21ain ganrif, ac rydym hefyd yn credu mewn cydraddoldeb i bawb; ni ddylai addysg un plentyn fod ar draul addysg un arall.

8.3 Tra oeddem yn cymryd tystiolaeth, rydym wedi gweld ac wedi clywed enghreifftiau o ymarfer da, lle mae'r awdurdodau lleol yn cysylltu'n llawn â'r gymuned, ac eraill lle mae cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u siomi. Thema a gododd dro ar ôl tro ledled y dystiolaeth oedd, hyd yn oed os yw cymuned yn anghytuno â'r penderfyniad terfynol, ei bod yn fwy tebygol o'i dderbyn os yw'n teimlo ei bod wedi cael ei chynnwys o ddifrif yn y broses.

8.4 Deuwn i'r casgliad felly fod angen i awdurdodau addysg lleol fod yn fwy agored a thryloyw wrth ddelio â chynigion i ad-drefnu ysgolion ac adeiladu ar yr enghreifftiau o ymarfer da yr ydym wedi'u gweld wrth inni gymryd tystiolaeth. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cefnogi wrth iddynt wneud hynny.

**Argymhelliad 14**: **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses ar gyfer ad-drefnu ysgolion er mwyn atgyfnerthu rôl awdurdodau addysg lleol, eu cynorthwyo â'u cyfrifoldebau o ran y broses ad-drefnu ac ystyried trosglwyddo'r hawl i glywed apeliadau yn erbyn cynigion i ad-drefnu ysgolion i gymrodreddwr annibynnol.**

**Atodiad 1**

**Crynodeb o'r Argymhellion**

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru

- yn darparu canllawiau cliriach i'r awdurdodau lleol ar sut i ddiffinio ac ymdrin â lleoedd dros ben;
- yn comisiynu ymchwil pellach i gost wirioneddol lle dros ben.

**Argymhelliad 2:** Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn unrhyw ganllawiau newydd ar leoedd dros ben, yn datgan yn glir mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw delio â materion defnyddio adnoddau a lleoedd dros ben o fewn ei gyllideb drwyddi draw a'i bolisi addysg.
Dylid ei gwneud yn glir mai'r awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ac na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwysau ar awdurdodau unigol.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gweledigaeth glir i ysgolion cynradd Cymru:

- I gynnwys diffiniad o'r hyn y mae "addas i'r diben" yn ei olygu;
- I fireinio a disgrifio "Safon Ysgolion i Gymru"

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r ystâd ysgolion i sefydlu faint o safleoedd ysgolion a fyddai'n cydymffurfio â'r safon a faint o fuddsoddiad a fydd yn ofynnol er mwyn gwella holl ysgolion Cymru fel eu bod yn cyrraedd y safon hon.

**Argymhelliad 5:** Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu strategaeth glir i sicrhau y bydd pob ysgol yng Nghymru yn cyrraedd y safon hon o fewn amserlen gyhoeddedig, y cytunwyd arni.

**Argymhelliad 6:** Nad oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiffinio ysgol fach yn ôl y nifer o ddisgyblion sy'n gofrestredig ar unrhyw adeg - ond ei bod yn diffinio ysgol fach yn ôl y staff a baich addysgu'r Pennaeth er mwyn darparu cymorth a'i dargedu at yr ysgolion hynny lle mae'r mwyaf o angen cymorth o'r fath.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cod ymarfer ar ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â'r gymuned y dylai awdurdodau lleol gadw ato wrth reoli'r broses hon.

**Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys yr angen i AALlau fod yn agored a thryloyw wrth ymgynghori ynghylch cynigion ad-drefnu ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i ymgynghori ystyrlon, wedi'i seilio ar wybodaeth, fod wrth galon y broses hon.

**Argymhelliad 9:** Yn ei chanllawiau diwygiedig, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro a ffurfioli rôl yr holl randdeiliaid yn y broses gau. Dylai'r canllawiau diwygiedig ei gwneud yn glir fod disgwyl i awdurdodau lleol fynd ati o ddifrif i roi gwybodaeth i gymunedau lleol ac yna helpu'r cymunedau hynny i

gymryd rhan yn y ddadl ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd mewn unrhyw ardal neilltuol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu ymchwil i'r effeithiau academaidd a chymdeithasol ar blant ar ôl iddynt symud i ysgol fwy.

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i asesu a llwyr ddeall effaith cau ysgolion ar gymunedau yng nghefn gwlad Cymru.

**Argymhelliad 12:** Dylai AALlau gynnal asesiadau trylwyr o'r effaith ar y gymuned cyn cau unrhyw ysgol fach. Ar sail ei hymchwil ei hun, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau i AALlau ar ymgymryd ag asesiadau o'r fath o'r effaith ar y gymuned.

**Argymhelliad 13:** Y dylai'r effaith ar yr iaith gael ei hystyried yn un o'r prif ffactorau penderfynu pan fydd awdurdodau leol yn penderfynu ynglŷn â chau ysgolion.

**Argymhelliad 14:** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses ar gyfer ad-drefnu ysgolion er mwyn atgyfnerthu rôl awdurdodau addysg lleol, eu cynorthwyo â'u cyfrifoldebau o ran y broses ad-drefnu ac ystyried trosglwyddo'r hawl i glywed apeliadau yn erbyn cynigion i ad-drefnu ysgolion i gymrodreddwr annibynnol.

**Atodiad 2**

## Cyrff ac unigolion a roddodd dystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor

| Y rhai a roddodd dystiolaeth | Yn cynrychioli |
|---|---|
| **4 Mehefin 2008** | |
| • Bob Smith<br>• Dr Roger Blunden<br>• Kevin Stephens | Grŵp Gweithredu Ysgolion Cymunedol Powys |
| **11 Mehefin 2008** | |
| • Yr Athro David Reynolds, Athro Addysg | Prifysgol Plymouth |
| • Yr Athro Glen Bramley, Athro Astudiaethau Trefol | Prifysgol Heriot-Watt |
| **25 Mehefin 2008** | |
| • Ffred Ffransis | Cymdeithas yr Iaith |
| • Matt Dix, Is-Gadeirydd a chyn Riant-lywodraethwr Ysgol Mynyddcerrig | Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin |
| **2 Gorffennaf 2008** | |
| • Steve Thomas, Prif Weithredwr,<br>• Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth<br>• Daisy Seabourne, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| • Mervyn Benford | Y Gymdeithas Ysgolion Bychain |
| • Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru<br>• Ann Keane, Pennaeth Cyfarwyddiaeth: Darparwyr Addysg<br>• Arwyn Thomas, Arolygwr Ei Mawrhydi | Estyn |

**9 Gorffennaf 2008**

| | |
|---|---|
| • Jane Hutt AC, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>• Mary Davies, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>• Paul Williams, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**Atodiad 3**

## Rhestr o bapurau'r pwyllgor a ddarparwyd i lywio'r dystiolaeth lafar

| Dyddiad | Enw'r Papur | Rhif Cyfeirnod y Papur |
|---|---|---|
| 4 Mehefin 2008 | Cyflwyniad ysgrifenedig gan Grŵp Gweithredu Ysgolion Cymunedol Powys ar yr Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth Addysg yng Nghefn Gwlad Cymru ac Ad-drefnu Ysgolion Gwledig (Saesneg yn unig) | RDC(3)-09-08 : Papur 1 |
| 25 Mehefin 2008 | Ysgolion Pentre – Yr Achos dros Resymoli Cadarnhaol | RDC(3)-11-08 : Papur 1 |
| | Gwrthwynebu'r Rhybudd Statudol i Gau Ysgol Llanddeusant | RDC(3)-11-08 : Papur 1 Atodiad A |
| | Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd | RDC(3)-11-08 : Papur 1 Atodiad B |
| | Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Strategaeth Cyngor Gwynedd i Ad-drefnu Addysg Gynradd | RDC(3)-11-08 : Papur 1 Atodiad C |
| | Gwrthwynebiad Cymdeithas yr Iaith i Hysbysiad Cau Ysgol Mynyddcerrig | RDC(3)-11-08 : Papur 1 Atodiad D |
| | Tystiolaeth i'w hystyried gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: Ymchwiliad i Ad-drefnu Ysgolion Gwledig gan Matt Dix (Saesneg yn unig) | RDC(3)-11-08 : Papur 1 Atodiad E |
| | Adroddiad ar Ymweliad Llywodraethwyr ag Ysgol Mynyddcerrig (Saesneg yn unig) | RDC(3)-11-08 : Papur 1 Atodiad F |

| | | |
|---|---|---|
| 2 Gorffennaf 2008 | Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth Addysg yng Nghefn Gwlad Cymru ac Ad-drefnu Ysgolion Gwledig (Saesneg yn unig)<br><br>Papur gan y Gymdeithas Ysgolion Bychain i'r Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth Addysg yng Nghefn Gwlad Cymru ac Ad-drefnu Ysgolion Gwledig (Saesneg yn unig)<br><br>Cyflwyniad gan Estyn i'r Ymchwiliad i'r Ddarpariaeth Addysg yng Nghefn Gwlad Cymru ac Ad-drefnu Ysgolion Gwledig (Saesneg yn unig) | RDC(3)-12-08 : Papur 1<br><br>RDC(3)-12-08 : Papur 2<br><br>RDC(3)-12-08 : Papur 3 |
| 9 Gorffennaf 2008 | Papur gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr Ymchwiliad i Ad-drefnu Ysgolion Gwledig | RDC(3)-13-08 : Papur 1 |

**Atodiad 4**

**Rhestr o'r Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth Ysgrifenedig**

| Sefydliad | Cyfeirnod y Pwyllgor |
|---|---|
| A1. Association of Communities in Wales with Small Schools (ACWSS) | RDC(3) RRSWA1 |
| A2. Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (pdf 128KB) | RDC(3) RRSWA2 |
| A3. Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr | RDC(3) RRSWA3 |
| A.4 ContinYou | RDC(3) RRSWA4 |
| A5. Plaid Lafur Etholaeth Dwyfor Meirionnydd (pdf 435KB) | RDC(3) RRSWA5 |
| A6. Y Gymdeithas Ysgolion Bychain | RDC(3) RRSWA6 |
| A7. Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru | RDC(3) RRSWA7 |
| A8. Un Llais Cymru | RDC(3) RRSWA8 |
| A9. Ffederasiwn Sefydliad y Merched Maesyfed Powys | RDC(3) RRSWA9 |
| A10. Pwyllgor Trosolwg Polisi Addysg, Iechyd a Lles Ynys Môn | RDC(3) RRSWA10 |
| A11. Cyngor Gwynedd | RDC(3) RRSWA11 |
| **Ysgolion (Athrawon/Llywodraethwyr ac ati) (B)** | |
| B1. Kate Bull, Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Llanfair Llythyfnwg | RDC(3) RRSWB1 |
| B2. Bethan Evans, Athrawes | RDC(3) RRSWB2 |
| B3. Dr Christine Jones, Cadeirydd Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd Gymunedol Llansadwrn | RDC(3) RRSWB3 |
| B4. Dr Emma Posey, Rhiant Lywodraethwr | RDC(3) RRSWB4 |
| B5. Dr Alexandra Plows, Llywodraethwr, Ysgol Gynradd Rhiwlas | RDC(3) RRSWB5 |
| B6. Eirwen Thomas, Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Llanedi | RDC(3) RRSWB6 |
| B7. Nick Tuffnell, Pennaeth, Ysgol Gynradd Franksbridge | RDC(3) RRSWB7 |
| B8. Jessica Lewis, Pennaeth, Ysgol Gynradd Maesybont (pdf 181KB) | RDC(3) RRSWB8 |
| B9. Sue Williams, Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Llwyngwril | RDC(3) RRSWB9 |

| Unigolion (C) | |
|---|---|
| C1. Hattie Budd | RDC(3) RRSWC1 |
| C2. Dr Ann Marie Courtney | RDC(3) RRSWC2 |
| C3. Dr Joanna Crawshaw | RDC(3) RRSWC3 |
| C4. John a Patricia Duffy (pdf 23 KB) | RDC(3) RRSWC4 |
| C5. Tricia Evans | RDC(3) RRSWC5 |
| C6. Ros Garrett | RDC(3) RRSWC6 |
| C7. R.I. Gunn | RDC(3) RRSWC7 |
| C8. David Jones | RDC(3) RRSWC8 |
| C9. John Milsom | RDC(3) RRSWC9 |
| C10. Paul Penrose | RDC(3) RRSWC10 |
| C11. Glynis Shaw | RDC(3) RRSWC11 |
| C12. Dr R.S. Terry (pdf 127 KB) | RDC(3) RRSWC12 |
| C13. Jane Whittle (pdf 61 KB) | RDC(3) RRSWC13 |
| C14. Anne Bull (pdf 97 KB) | RDC(3) RRSWC14 |
| C15. Richard Bull (pdf 90 KB) | RDC(3) RRSWC15 |